# LEARNING THE LESSONS

**Dysgu’r Gwersi 37 (Pobl Ifanc) – Ionawr 2020**




**Cyfarfod y tîm golygyddol**

Croeso i rifyn 37 sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc, y cyntaf i gael golygyddion gwadd o blith aelodau panel ieuenctid yr IOPC. Crëwyd y panel ieuenctid yn Ionawr 2018 i'n helpu i gael mwy o ddealltwriaeth o brofiadau pobl ifanc, gan helpu i roi mwy o wybodaeth i seilio ein gwaith arno.

Gadewch i ni gyfarfod y tîm golygyddol . . .

**Chloe**



Helo, Chloe ydw i. Rwy'n 18 oed ac yn dod o Gaer. Ar hyn o bryd rwyf yn y chweched dosbarth yn astudio hanes, daearyddiaeth a throseddeg. Rwy'n gweithio rhan-amser mewn bar, ac rwy'n gwirfoddoli i'r IOPC, comisiwn ieuenctid Swydd Gaer, y Grŵp Cynghori Annibynnol, a'r Grŵp Cynghori Ieuenctid yn heddlu Swydd Gaer.

Dechreuais gyfrannu at y panel ieuenctid oherwydd fy mod am i bobl ifanc gael mwy o lais am yr hyn sy'n digwydd mewn cymdeithas. Rwyf wedi cyfrannu at ddatblygu Dysgu'r Gwersi am fy mod eisiau sicrhau bod swyddogion heddlu yn deall safbwynt pobl ifanc.

**Nadine**



Nadine ydw i. Rwy'n 23 oed ac o Orllewin Sussex.

Dechreuais gyfrannu at y panel ieuenctid oherwydd fy mod yn angerddol am lais i bobl ifanc. Roddwn am gael y cyfle i fynegi fy marn am blismona pobl ifanc, pobl ifanc Ddu, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig yn benodol, ac i helpu wrth godi ymwybyddiaeth o'r IOPC.

Fy neges i bob swyddog heddlu sy'n darllen y rhifyn hwn yw dyneiddio pob cysylltiad â phobl ifanc.

**Lyle**

**Amania**



Amania ydw i. Cefais fy ngeni a'm magu yn Brixton ac rwyf newydd orffen fy ngradd meistr mewn cyfiawnder troseddol a throseddeg.

Gwnaeth gweld fy nheulu, fy ffrindiau a'm cyfoedion yn cael cyswllt anghymesur â'r system gyfiawnder, a thensiwn hanesyddol fy nghymuned gyda gorfodi'r gyfraith, i mi fod yn awyddus iawn i gyfrannu at waith lle gallaf wella cyfiawnder ieuenctid a'u grymuso. Rwyf am bontio rhwng y rhai sy'n cael eu tangynrychioli a'r system(au) y maent yn teimlo eu bod yn gweithio yn eu herbyn.

Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig cynnwys pobl ifanc yn y trafodaethau a phrosesau sy'n effeithio arnyn nhw. Rwy'n credu y gall cydnabod a derbyn ein barn ni, ar ran demograffeg iau, gael effaith sylweddol ar y rhyngweithio rhwng ieuenctid a'r heddlu.

"Byddwch y newid y dymunwch ei weld yn y byd".

**Giosué**



Giosué ydw i. Rwy'n fyfyriwr microbioleg 22 oed sy'n angerddol am newid cadarnhaol yn cael ei yrru gan ieuenctid.

Dechreuais ymwneud â'r panel ieuenctid oherwydd fy mod am gael effaith a hyrwyddo newid i bobl ifanc, sydd yn aml yn cael eu hesgeuluso gan y system ac yn ddi-lais.

Y neges fyddwn i'n ei roi i swyddogion sy'n darllen y rhifyn hwn, yw fy mod yn gwerthfawrogi eich gwaith caled, a'm bod yn gobeithio y



Rwy'n berson ifanc sy'n angerddol am wneud gwahaniaeth i'r bobl yr wyf yn gweithio gyda nhw.

Dechreuais gyfrannu at y panel ieuenctid oherwydd fy mod am ddeall y system cyfiawnder troseddol yn well. Roeddwn am ddatblygu ffyrdd o ledaenu gwybodaeth fel bod pobl ifanc, a phobl yn gyffredinol, yn gallu deall eu hawliau.

Roeddwn hefyd am fynegi barn pobl ifanc ar draws y Deyrnas Unedig i'r IOPC. Rwy'n gobeithio helpu'r IOPC i ddatblygu sut y mae'n gweithio gyda'r heddlu i ddeall rhai o'r sialensiau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu, a sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i'w gwneud yn haws.

Rwy'n meddwl bod Dysgu'r Gwersi yn ffordd dda o gyrraedd y bobl yr ydym ni'n ceisio eu targedu. Y mae'n rhywbeth y gall pobl ifanc a'r heddlu ei ddarllen yn eu hamser hamdden. Gall y ddau grŵp gael gwell dealltwriaeth o safbwynt ei gilydd.

Y neges sydd gennyf i i swyddogion heddlu sy'n darllen y rhifyn hwn yw dangos empathi. Meddyliwch am rywun ifanc yr ydych yn ei adnabod ac yn ei garu, a sut y byddech am i'r unigolyn hwnnw gael ei drin. Triniwch y bobl ifanc y byddwch yn dod ar eu traws yn yr un modd.

"Byddwch y newid y dymunwch ei weld yn y byd".

byddwch yn gweld y rhifyn hwn yn un dadlennol. Mae'n rhoi golwg unigryw ar broblemau a syniadau pobl ifanc.

Mae'n anrhydedd cael bod yn rhan o'r prosiect hwn, ac rwy'n gobeithio y bydd unrhyw un sy'n ei ddarllen yn cael ei ysbrydoli i wella a dysgu oddi wrtho.

Diolch yn fawr i aelodau panel ieuenctid yr IOPC a roddodd eu hamser i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r rhifyn hwn, ac i'r tîm o Leaders Unlocked fu'n eu cefnogi trwy'r gwaith hwn.

**Am Leaders Unlocked**

Mae Leaders Unlocked yn galluogi pobl ifanc a grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli i gael llais cryfach am y materion sy'n effeithio ar eu bywydau. Mewn addysg, plismona, iechyd, cyfiawnder a mannau eraill, rydym yn helpu sefydliadau i gynnwys y bobl sydd o bwys a siapio'r gwaith o lunio penderfyniadau er gwell.

**Dysgwch ragor ar-lein –** http://leaders-unlocked.org/

## Cynnwys


### Cyfathrebu

| | Achos | Tudalen |
|---|---|---|
| Cyfleu'r penderfyniad i arestio | 1 | 5 |
| Procio/Gofyn y cwestiynau iawn | 2, 5, 8, 9 | 8, 26, 35, 42 |
| Tawelu cyn defnyddio grym | 1, 7 | 5, 32 |

### Bregrusrwydd

| | | |
|---|---|---|
| Rheoli ymddygiad anodd | 1 | 5 |
| Ymchwilio i gam-fanteisio rhywiol ar blant | 2, 3 5, 6, 9 | 8, 16, 26, 28, 42 |
| Pobl ifanc ac oedolion priodol | 4, | 19, |

### Rheoli Risg

| | | |
|---|---|---|
| Dynodi Risg | 2, 8 | 8, 35 |
| Asesu Risg | 4, 8 | 19, 35 |

**Cyfranwyr**

| | | |
|---|---|---|
| (10)<br><br>Rydym yn cyfarfod y Dirprwy Brif Gwnstabl Jo Shiner, yr arweinydd plismona cenedlaethol newydd i blant a phobl ifanc. | (7)<br><br>Caroline Adams, swyddog staff ar gyfer y portffolio plant a phobl ifanc NPCC yn sôn am waith swyddogion heddlu mewn ysgolion. | (14)<br>Aelodau panel ieuenctid yr IOPC yn rhannu eu profiadau o gyswllt gyda'r heddlu. |
| (22)<br>Rydym yn edrych ar adroddiad panel ieuenctid yr IOPC ar y rhwystrau sy'n atal ymddiriedaeth yn system gwynion yr heddlu. Rydym hefyd yn ystyried gwaith sy'n cael ei wneud i symud ei argymhellion ymlaen. | (24)<br><br>Aelodau o banel ieuenctid yr IOPC yn cyfweld Cyfarwyddwr Cyffredinol yr IOPC, Michael Lockwood, gan ddysgu am ei waith gyda'r panel ieuenctid a'i gynlluniau at y dyfodol. | (30)<br>Aelodau o banel ieuenctid yr IOPC yn rhannu awgrymiadau da i swyddogion. |
| (12)<br><br>Casey Clay o'r Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carcharorion (Pact) yn cyflwyno eu prosiect 'Clywch Ein Llais'. | (38)<br><br>Chris Bath o'r Rhwydwaith Oedolion Priodol Cenedlaethol (NAAN) yn sôn am bobl ifanc a mynediad at oedolion priodol. | (40)<br>Cawn glywed sut y mae lluoedd heddlu Swydd Nottingham a Gogledd Swydd Efrog yn cynnwys pobl ifanc wrth oruchwylio a chraffu ar arfer yr heddlu. |

Anfonwch e-bost at learning@policeconduct.gov.uk gyda chyfraniadau yr hoffech eu gweld mewn rhifynnau yn y dyfodol am blismona ffyrdd, neu gamddefnyddio pwerau.

**Achos 1 – Disgybl Ysgol ddim yn cael gwybod am arestio a dat-arestio**

Roedd merch 13 oed yn dadlau gyda disgybl arall mewn ysgol ac fe'i hanfonwyd i swyddfa'r prifathro cynorthwyol. Wnâi'r ferch ddim tawelu, felly anfonodd y staff am y swyddog ysgolion diogelach.

Roedd y swyddog wedi bod yn ymwneud â nifer o ddigwyddiadau yn ymwneud â'r ferch o'r blaen. Roedd wedi llwyddo i'w thawelu ar yr achlysuron blaenorol.

Cyrhaeddodd y swyddog heddlu a gofyn i'r ferch eistedd i lawr a gwrando ar ei hathrawon. Dywedodd y prifathro cynorthwyol, pan wnaeth y ferch wrthod eistedd i lawr, bod y swyddog heddlu wedi rhoi ei ddwylo ar ei hysgwyddau a'i gwthio i lawr nes ei bod yn eistedd ar y gadair. Roedd y ferch yn dal i godi ar ei thraed.

Dywedodd y swyddog heddlu ei fod yn mynd i roi cyffion arni nes byddai'n tawelu i lawr. Roedd y prifathro cynorthwyol yn cofio bod y swyddog heddlu wedi dweud "Nid wyf yn dy arestio di..." Dywedodd y swyddog heddlu wrth yr IOPC ei fod wedi gwneud "dewis bwriadol" wrth beidio â dweud wrth y ferch ei bod wedi ei harestio a'i dat-arestio. Roedd yn cyfiawnhau hyn trwy gyfeirio at bolisi lleol y llu heddlu ar ysgolion diogelach. Roedd hwn yn dweud y dylai swyddogion fod "yn barod i wneud pethau yn wahanol".

**Deddf Cyfraith Droseddol (1967), Adran 3**

"Use of force in making arrest, etc.

> (1) A person may use such force as is reasonable in the circumstances in the prevention of crime, on in effecting or assisting in the lawful arrest of offenders or suspected offenders or of persons unlawfully at large.
>
> (2) Subsection (1) above shall replace the rules of the common law on the question when force used for a purpose mentioned in the subsection is justified for that purpose."

**Dysgwch ragor:** https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1967/58/section/3

**Mae *Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol,* Rhan 3, Adran 28 yn datgan:**

(1) Subject to section (5) below, where a person is arrested, otherwise than by being informed that he is under arrest, the arrest is not lawful unless the person arrested is informed that he is under arrest as soon as is practicable after his arrest.
(2) When a person is arrested by a constable, subsection (1) above applies regardless of whether the fact of the arrest is obvious.
(3) Subject to subsection (5) below, no arrest is lawful unless the person is informed of the ground for the arrest at the time of, or as soon as is practicable after, the arrest.
(4) Where a person is arrested by a constable, subsection (3) above applies regardless of whether the ground for the arrest is obvious.
(5) Nothing in this section is to be taken to require a person to be informed –
    a. That he is under arrest; or
    b. Of the ground for the arrest,

If it was reasonably practicable for him to be so informed by reason of his having escaped from arrest before the information could be given.

**Dysgwch ragor yn:** https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1984/60/section/28

Gwaethygodd ymddygiad y ferch ar ôl i'r swyddog roi'r cyffion arni. Roedd athrawon yn disgrifio fel yr oedd yn brwydro ac yn chwifio ei breichiau.

Dywedodd yr holl dystion i'r digwyddiad wrth yr IOPC nad oeddent yn credu bod y ferch wedi ei harestio. Esboniodd y ferch ei bod wedi cael ei harestio a'i rhybuddio gan y swyddog hwn o'r blaen, a'i bod, felly, yn credu nad oedd wedi ei harestio y tro hwn.

Esboniodd y prifathro cynorthwyol i'r ferch ei bod wedi ei gwahardd am gyfnod penodol. Tynnodd y swyddog y cyffion.

Ar ôl gadael y swyddfa, ceisiodd y ferch fynd i gyfeiriad croes i'r un y dywedwyd wrthi am fynd iddo. Gafaelodd y prifathro cynorthwyol ac athro arall mewn braich bob un a'i cherdded i lawr y cyntedd. Fe wnaethant oedi y tu allan i set o ddrysau dwbl â chloeon magnetig ac fe wnaeth y ferch dynnu ei braich yn rhydd oddi ar yr athro. Roedd y swyddog tu ôl iddynt ac fe wnaeth gydio yn ei braich. Parhaodd y swyddog a'r prifathro cynorthwyol i hebrwng y ferch i lawr y cyntedd.

Cofnododd y swyddog yn ei lyfr cofnodion ei fod wedi ystyried sgiliau dwylo gwag a phwerau dan y gyfraith droseddol cyn rhoi'r ferch mewn clo braich a gymeradwyir gan y Swyddfa Gartref. Derbyniodd yr IOPC resymeg y swyddog bod defnyddio grym yn rhesymol a chymesur dan yr amgylchiadau.

Dywedodd yr athrawon na wnaeth y ferch awgrymu ei bod mewn poen ar y pryd hwn.

Aeth y ferch adref ar ôl cael ei hebrwng allan o'r ysgol. Pan gyrhaeddodd gartref dywedodd wrth ei mam bod ganddi boen yn ei harddwrn de. Aethant i'r ysbyty lle cadarnhaodd y staff meddygol bod anaf i'w harddwrn a'i chyfeirio at y clinig tor-asgwrn.

Dywedodd y ferch ei bod yn credu bod yr anaf wedi digwydd pan wnaeth y swyddog gloi ei braich.

Yn hwyrach y diwrnod hwnnw, rhoddwyd cofnod ar systemau'r llu heddlu bod 'tor-heddwch' wedi digwydd yn yr ysgol. Cofnodwyd y cofnod hwn ar gyfarwyddyd y swyddog yn yr ysgol, a ddywedodd ei fod wedi arestio a dat-arestio'r ferch.

**Cwestiynau allweddol i lunwyr polisïau/rheolwyr:**

- Sut mae eich llu heddlu chi yn sicrhau bod swyddogion yn ymwybodol o'r angen i ddweud wrth unigolyn ei fod yn cael ei arestio a'r sail ar gyfer ei arestio dan y *Ddeddf Heddlu a Thystiolaeth Troseddol* (PACE)?
- Pa gyngor neu hyfforddiant ydych chi'n ei roi i swyddogion i'w helpu i gyfathrebu yn effeithiol gyda phlant a phobl ifanc?
- A yw'r cyfarwyddyd neu hyfforddiant yr ydych yn ei roi i swyddogion yn eu cynghori i drin pobl ifanc yn wahanol gan ddibynnu ar eu hoedran?

**Cwestiynau allweddol i swyddogion heddlu/staff:**

- Pe byddech chi yn swyddog heddlu yn y digwyddiad hwn, pa ddulliau eraill fyddech chi wedi eu hystyried i drin ymddygiad y ferch?

**Deilliannau i'r swyddogion/staff oedd yn rhan o'r digwyddiad:**

- Roedd gan y swyddog oedd yn rhan o'r digwyddiad hwn achos i'w ateb am gamymddygiad. Roedd hyn am beidio â dweud wrth berson ifanc ei bod wedi ei harestio (yn groes i PACE). Bu'r swyddog mewn cyfarfod camymddygiad, a phrofwyd ei fod wedi camymddwyn. Derbyniodd y swyddog hyfforddiant ar ddefnyddio'r Model Penderfyniad Cenedlaethol (NDM) a dehongli PACE o ganlyniad.

SYLW'R PANEL IEUENCTID: "Mae'n bwysig bod diogelwch y plentyn yn dod yn gyntaf."

**Sylw gan yr NPCC: Heddlu mewn ysgolion**

Mae gwaith yr heddlu mewn ysgolion yn amrywio o lu heddlu i lu heddlu. Mewn rhai ardaloedd, mae'r swyddogion yn gweithio ar safle'r ysgol ac yn gweithio gyda'r ysgol honno yn unig. Mae'n fwy tebygol y bydd swyddog wedi ei gysylltu yn ffurfiol â grŵp penodol o ysgolion, neu yn rhan o dîm ehangach yn gwasanaethu un ysgol neu nifer ohonynt.

Weithiau mae swyddogion yn gweithredu fel cyswllt penodol i ysgol, tra, mewn achosion eraill, y byddant yn rhoi cefnogaeth mewn tîm fel rhan o'u dyletswyddau ffurfiol yn ôl y gofyn.

Mae'r rôl y maent yn ei chyflawni yr un mor amrywiol. Yn gyffredinol, bydd yr holl swyddogion yn gweithio gydag ysgolion, ym mha bynnag swyddogaeth, i ymateb ac ymdrin â digwyddiadau yn gysylltiedig â throseddau. Mae'n bwysig iddynt ymchwilio ac ymateb i ddigwyddiadau sy'n briodol a pherthnasol i gyfraniad yr heddlu yn unig. Y mae risg, pan fyddant yn gweithio mewn un ysgol, eu bod yn cael eu tynnu i mewn i ymdrin â digwyddiadau sy'n ymwneud ag ymddygiad na fyddai'n cyrraedd y trothwy i gynnwys yr heddlu. Mae portffolio plant a phobl ifanc yr NPCC wedi creu cyfarwyddyd i ysgolion ar 'pryd i alw'r heddlu'. Bydd hyn yn helpu arweinwyr ysgolion i ddeall y trothwy ar gyfer galw'r heddlu i ymwneud â digwyddiadau yn gysylltiedig â throseddu.

Gall swyddogion chwarae rôl werthfawr wrth gefnogi'r cwricwlwm, y cwricwlwm Addysg Personol, Cymdeithasol, Iechyd ac Economaidd (ABCECh) fel arfer. Mae hon yn ffordd wych o lunio perthynas gyda phobl ifanc yng nghymuned yr ysgol, a dangos bod yr heddlu yn bobl y gellir ymddiried ynddynt i bobl ifanc.

Trwy ddefnyddio egwyddorion y ddamcaniaeth cyfiawnder gweithdrefnol mae'r gweithgaredd addysgol ataliol hwn yn cynnig addysg werthfawr i'r plant a'r bobl ifanc o ran y gyfraith a dilysrwydd yr heddlu. Mae portffolio plant a phobl ifanc yr NPCC, gyda'r Gymdeithas PSHE a'r London School of Economics, yng nghanol gwaith gwerthuso i sefydlu sail o dystiolaeth am hyn. Bydd yr adroddiad terfynol ar gael erbyn Mai 2020.

Un o wir fanteision cael perthynas ag ysgolion yw'r cyfle i ymyrryd yn gynnar wrth ddynodi gwendid a defnyddio dull diogelu i atal y niwed rhag digwydd.



**Caroline Adams QPM**
**Swyddog staff portffolio plant a phobl ifanc yr NPCC**

**Achos 2 – Diogelu lles tair menyw ifanc**

Cyfarfu tair menyw ifanc (rhwng 14 ac 16 oed) â dau ddyn (17 a 22 oed). Aeth y grŵp i gerbyd un o'r dynion a gyrru ymaith.

Aeth y cerbyd hwn ar dân wrth yrru ar hyd ffordd ddeuol. Fe wnaethant dynnu i'r ochr ac fe aethant i gyd allan o'r cerbyd ac eistedd ar y glaswellt ger y ffordd.

Rhoddwyd adroddiad i'r heddlu am y tân ac anfonwyd adnoddau i'r lleoliad. Y swyddog heddlu cyntaf i gyrraedd oedd sarsiant heddlu oedd yn gyrru cerbyd cludo pobl yn lifrai'r heddlu. Aeth gwasanaethau ambiwlans a thân yno hefyd.

Dywedodd y dyn oedd wedi bod yn gyrru ei fod wedi siarad â swyddog heddlu a rhoi manylion beth oedd wedi digwydd. Roedd hefyd wedi rhoi ei enw a'i gyfeiriad a manylion y cerbyd oedd wedi mynd ar dân i'r swyddog.

Dywedodd y dyn oedd wedi bod yn gyrru hefyd ei fod wedi dweud wrth y swyddog bod y menywod ifanc yn ffrindiau iddo. Nododd y dyn ei fod wedi gofyn i'r swyddog a fyddai'r heddlu yn mynd â'i ffrindiau adref, ond dywedodd y dywedwyd wrtho y byddai angen i'r grŵp i gyd gael eu cludo yn ôl i un lle.

Dywedodd parafeddyg a aeth i'r digwyddiad ei fod wedi trin un o'r menywod ifanc ar ôl cyrraedd gan y credid ei bod yn cael ymosodiad asthma/panig. Esboniodd y parafeddyg ei fod wedi gofyn i'r fenyw ifanc am fanylion, a'i bod wedi dweud ei bod yn 16 mlwydd oed. Nododd y parafeddyg ei fod wedi gweld swyddog heddlu yn mynd rhwng cerbyd heddlu ac ymyl y ffordd nifer o weithiau.

Mewn cyfweliad, dywedodd y sarsiant heddlu, pan gyrhaeddodd, ei fod wedi gweld grŵp o bobl ar ymyl y ffordd. Dywedodd ei fod wedi aros yn ymyl ei gerbyd er ei ddiogelwch ei hun ac nad oedd wedi mynd at y grŵp. Cadarnhaodd y sarsiant heddlu nad oedd wedi siarad â'r grŵp.

Yn fuan wedyn, diffoddwyd y tân. Aeth dau gwnstabl heddlu, a oedd ar ddyletswydd fel patrol traffig, i'r lleoliad. Dywedodd un o'r cwnstabliaid heddlu ei fod wedi siarad â'r sarsiant heddlu ynglŷn â beth allai ef a'r cwnstabl heddlu arall ei wneud i helpu. Roedd yn cofio bod y sarsiant heddlu wedi dweud bod popeth mewn trefn. Gadawodd y ddau gwnstabl heddlu'r lleoliad yn fuan wedyn. Nododd y ddau na chawsant unrhyw gyswllt â'r rhai fu yn y cerbyd.

Yn ei gyfweliad, esboniodd y sarsiant heddlu bod y ddau gwnstabl heddlu wedi siarad â'r rhai oedd yn y cerbyd. Dywedodd ei fod yn credu bod y ddau gwnstabl heddlu wedi cymryd rheolaeth ar y digwyddiad.

Dywedodd un o'r menywod ifanc bod swyddog heddlu wedi mynd at y rhai oedd yn y cerbyd ar ôl i'r tân gael ei ddiffodd. Roedd yn cofio bod y swyddog wedi gofyn i'r dyn oedd wedi bod yn gyrru a oeddent yn barod i fynd. Nid oedd y fenyw ifanc yn cofio unrhyw sgwrs ynglŷn â ble yr oeddent i fynd. Gofynnodd y fenyw ifanc i'r dyn oedd wedi bod yn gyrru a allent ddychwelyd i'w tref eu hunain. Yn ôl y fenyw, atebodd y dyn bod y swyddog wedi dweud wrtho mai dim ond i ail dref y caent fynd, nid tref y menywod ifanc. Roedd hyn am bod y swyddog o'r ail dref.

Nododd un arall o'r menywod, tra'r oedd y grŵp yn eistedd ar ymyl y ffordd, bod swyddog heddlu wedi mynd atynt a gofyn i ble yr oeddent yn mynd. Roedd yn cofio bod y dyn oedd wedi bod yn gyrru wedi dweud wrth y swyddog y dylai fynd â'r grŵp yn ôl i'w gartref (yn yr ail dref).

Yn eu hadroddiadau, dywedodd dwy o'r menywod ifanc nad oedd y swyddog wedi gofyn am eu manylion, gan gynnwys eu henwau a'u hoedran.

Aeth y pump oedd wedi bod yn y cerbyd i gerbyd y sarsiant heddlu, ac fe yrrodd i'r ail dref. Dywedodd un o'r menywod ifanc ei bod hi a menyw ifanc arall wedi crio yn ystod y daith. Dywedodd hefyd bod y drydedd fenyw ifanc mewn panig.

Yn ystod ei gyfweliad gyda'r IOPC, dywedodd y sarsiant heddlu ei fod yn credu bod y ddau gwnstabl heddlu wedi dweud wrtho am eu cludo i'r ail dref lle'r oedd y rhai oedd yn y car wedi trefnu i gael eu codi. Gwadodd i neb ofyn iddo fynd â'r grŵp i dref y menywod ifanc.

Roedd y sarsiant heddlu yn cofio, yn ystod y daith, bod y rhai oedd yn y car mewn hwyliau da, ond na wnaeth siarad ag unrhyw un ohonynt. Credai bod pawb yn y grŵp yn eu hugeiniau, ond roedd yn cydnabod bod hyn yn seiliedig ar y ffordd yr oeddent yn edrych ac nid ar gael clywed eu hoed. Cadarnhaodd nad oedd yn ymwybodol o unrhyw fanylion am y grŵp, gan gynnwys eu henwau na'u hoedran.

Diweddarwyd cofnod y digwyddiad gan nodi bod y sarsiant heddlu wedi gollwng y rhai oedd yn y cerbyd gartref yn yr ail dref.

Yn dilyn hynny, cwynodd dwy o'r menywod ifanc eu bod wedi dioddef ymosodiad rhywiol tra'r oeddynt yng nghyfeiriad y dyn oedd wedi bod yn gyrru. Ymchwiliwyd i'r mater gan yr heddlu, ond ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

Yn ei gyfweliad gyda'r IOPC, nododd y sarsiant heddlu nad ei gyfrifoldeb ef oedd diogelu'r tair menyw ifanc gan nad oedd yn rheoli'r digwyddiad.

**Cwestiynau allweddol i lunwyr polisïau/rheolwyr:**

- Sut mae eich llu heddlu yn sicrhau bod pob swyddog a staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i ddiogelu pobl fregus?
- Pa hyfforddiant y mae eich llu heddlu yn ei roi i swyddogion a staff am ddynodi bregrusrwydd, yn arbennig mewn plant a phobl ifanc?
- Pa gyfarwyddyd y mae eich llu yn ei roi i swyddogion a staff am y camau y dylent eu hystyried os byddant yn dynodi unrhyw risgiau i blentyn neu berson ifanc?

**Cwestiynau allweddol i swyddogion heddlu/staff:**

- Pa gwestiynau fyddech chi wedi eu gofyn i ddynodi amgylchiadau'r digwyddiad hwn, manylion y rhai oedd yn y cerbyd yn benodol?
- Beth fyddai eich asesiad chi wedi bod am y risgiau i les y tair menyw ifanc?
- Pa gamau fyddech chi wedi eu cymryd i reoli unrhyw risgiau i les y tair menyw ifanc?
- A fyddech wedi ystyried cysylltu â rhieni neu warcheidwaid unrhyw un o'r rhai oedd yn y cerbyd a oedd dan 18 oed?
- Fel y swyddog cyntaf i gyrraedd, a fyddech wedi cymryd unrhyw gamau ychwanegol i ymgysylltu â'r tair menyw ifanc yn y cerbyd i ddynodi unrhyw bryderon posibl am les neu ddiogelu?
- Fel y swyddog cyntaf i gyrraedd, a fyddech wedi gofyn i'r rhai oedd yn y cerbyd a oeddent angen help i gysylltu ag unrhyw un i'w hysbysu am y sefyllfa?
- Petaech yn aelod o'r uned traffig a gyrhaeddodd y lleoliad ar ôl i'r atalfa ar y ffordd ddod i ben, a fyddech wedi cael unrhyw gyswllt â'r rhai oedd yn y cerbyd?
- A fyddech wedi ystyried gwahanu'r menywod a siarad â phob un ar wahân?

**Deilliannau i'r swyddogion/staff oedd yn rhan o'r digwyddiad:**

- Canfuwyd bod gan y sarsiant heddlu achos i'w ateb am gamymddygiad. Roedd hyn am beidio â gwneud digon o ymholiadau i gael gwybod oedran neu pwy oedd y tair menyw ifanc, ac am beidio ag asesu yn briodol y risg o fynd â'r tair menyw ifanc i ail dref yn hytrach nag i'w cartrefi.
- Diswyddwyd y sarsiant heddlu heb rybudd yng nghyswllt mater arall cyn y gallai fynd i gyfarfod camymddygiad yn ymwneud â'r digwyddiad hwn.

SYLW'R PANEL IEUENCTID: "Mae'n bwysig bod yn chwilfrydig a dadansoddi beth all fod yn digwydd."

## Cyflwyno'r arweinydd plismona cenedlaethol newydd i blant a phobl ifanc

Bu aelodau panel ieuenctid yr IOPC yn sgwrsio gyda'r Dirprwy Brif Gwnstabl Jo Shiner, yr arweinydd plismona cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc, i glywed am ei gweledigaeth ar gyfer y dyfodol.



**Jo Shiner** yw Dirprwy Brif Gwnstabl Heddlu Sussex. Cychwynnodd Jo ei gyrfa blismona yn Norfolk yn 1993, yn gwasanaethu hyd at reng Prif Uwch-arolygydd. Trosglwyddodd wrth gael dyrchafiad i Gaint fel Prif Gwnstabl Cynorthwyol yn 2014, cyn ymuno â Heddlu Sussex fel Dirprwy Brif Gwnstabl ar ddiwedd 2018.

Mae ei gyrfa yn yr heddlu yn rhychwantu bron i 27 mlynedd. Rolau gweithredol sydd wedi bod ganddi yn bennaf, mewn iwnifform ac fel ditectif yn yr Uned Diogelu Plant ac Oedolion, a CID ac fel comander arfau tanio, trefn gyhoeddus a digwyddiadau critigol.

Mae Jo yn eistedd fel Ymddiriedolwr ar gyfer yr elusen Embrace (Dioddefwyr Troseddau sy'n Blant), ac mae wedi gwirfoddoli a chodi arian at Ymddiriedolaeth y Tywysog.

---

**Beth wnaeth i chi fod am ddod yn arweinydd plismona cenedlaethol dros blant a phobl ifanc?**

Efallai ei fod yn swnio'n ystrydebol, ond rwyf yn credu mai plant a phobl ifanc YW ein dyfodol. Mae'r ffordd yr ydym ni, mewn plismona (a mannau eraill) yn ymgysylltu a gwrando yn hanfodol.

Bûm yn gwasanaethu am fwy na thair blynedd fel ditectif sarsiant mewn uned diogelu plant yn gynnar yn fy ngyrfa. Fe welais drosof fy hun sut y gallem ni wneud gwahaniaeth trwy newid ein dull o drin plant a phobl ifanc sy'n byw trwy brofiadau plentyndod niweidiol.

Mae dull plismona o drin plant a phobl ifanc wedi bod yn bwysig i mi wastad. Rwy'n angerddol dros gefnogi pobl ifanc i sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth a'r cyfleoedd gorau posibl i wneud y dewisiadau cywir. Mae gan blismona rôl holl bwysig wrth gefnogi hyn, ac rwy'n gweld gwaith y portffolio hwn yn allweddol i yrru a chryfhau'r maes cymhleth hwn. Rwy'n gweithio'n agos iawn gyda nifer o elusennau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc, a bydd hyn yn parhau yn bwyslais allweddol.

**Sut ydych chi'n gweithio i leihau neu i liniaru presenoldeb neu effaith anghymesuredd hiliol?**

Mae'r gallu i ddeall effaith gwahanol ddulliau plismona a phwerau yn allweddol, ac mae angen i ni sicrhau ein bod yn cael ein harwain gan dystiolaeth ac yn gwrando ar brofiadau pobl ifanc.

Bydd ein partneriaid yn holl bwysig i gynorthwyo'r gwasanaeth heddlu i sicrhau strategaeth gymesur, gyfreithlon sy'n ennyn ymlyniad. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cenedlaethol, i symud y maes pwysig hwn ymlaen.

**Beth mae'r NPCC yn ei wneud i sicrhau nad yw plant a phobl ifanc yn cael eu troseddoli yn annheg?**

Mae'r symudiad sylweddol mewn plismona yn genedlaethol tuag at ddynodi ac adnabod bregrusrwydd yn amlygu'r pwysigrwydd y mae plismona modern yn ei roi ar ddelio â phobl ifanc yn briodol a'u diogelu. Rhaid i hyn gael ei gydbwyso â chanlyniadau troseddol mewn amgylchiadau priodol.

Mae nifer o gynlluniau gwahanol ar draws y wlad sy'n addysgu ac adsefydlu pobl ifanc, yn hytrach na'u troseddoli. Fe fydd rhai amgylchiadau pan fydd erlyn yn briodol. Ni fu mor bwysig erioed o'r blaen, gyda'r cynnydd mewn trais difrifol, bwlio, troseddau ar-lein a cham-fanteisio ac ati, i yrru gwaith ymlaen i addysgu pobl ifanc a'u hatal rhag dod yn ddioddefwyr, troseddwyr, neu'r ddau.

**Sut fyddwch chi yn cynnwys plant a phobl ifanc wrth ddatblygu a gweithredu strategaeth blismona sy'n canolbwyntio ar blant?**

Dylai plant a phobl ifanc fod â rhan weithredol wrth ein helpu i siapio a ffurfio ein dull, ac mae'n rhaid iddynt ei chael. Felly, byddaf yn adeiladu ar y ffyrdd y mae'r portffolio yn gwneud hyn. Byddwn yn cyflwyno syniadau ffres, gan roi cyfle i bobl ifanc ymgysylltu yn y ffyrdd priodol, ac eistedd yn y cyfarfodydd llunio penderfyniadau gyda llais priodol. Bydd defnyddio trydydd bartïon profiadol yn ategu at ein dull.

**Sut ydych chi'n meddwl y bydd plismona plant a phobl ifanc wedi newid mewn pum mlynedd?**

Ein huchelgais ar hyn o bryd yw 'gwella ansawdd plismona i blant a phobl ifanc trwy gydnabod eu gwahaniaethau, adnabod eu bregrusrwydd a diwallu eu hanghenion.' Rwy'n gobeithio, mewn pum mlynedd, y byddwn yn gwneud hyn yn fwy deallus, gyda phartneriaid statudol yn gweithio yn fwy diwnïad gyda'i gilydd.

Yn ychwanegol rwy'n gobeithio y byddwn yn gweld effaith rhai o'r camau dargyfeiriol ac ataliol yr ydym yn buddsoddi ynddynt yn awr. Byddwn hefyd yn hoffi cynyddu'r ffyrdd y mae cymdeithas yn dathlu llwyddiannau plant a phobl ifanc, gan gryfhau delwedd pobl ifanc fel modelau rôl.

**Pa hyfforddiant y mae swyddogion yn ei gael i weithio gyda phlant a phobl ifanc, ac a ydych yn meddwl ei fod yn ddigon da?**

Mae amrywiaeth o hyfforddiant ar gael i swyddogion gan ddibynnu ar eu rôl benodol. Ond, yn yr un modd â phob her mewn plismona, rydym wastad yn ymdrechu i wella. Nid oes fawr o amheuaeth bod yr hyfforddiant yn awr yn fwy deallus, cytbwys, a bod pwyslais cliriach ar ddynodi bregrusrwydd. Y cwestiwn i mi yw a ydym wedi edrych yn ddigon eang ar yr hyn y gall rhai o'n partneriaid ac elusennau eu cynnig i sicrhau safbwynt gwahanol.

**Sut y mae plismona plant a phobl ifanc yn wahanol (gan feddwl yn benodol sut y dylai grwpiau o oedrannau gwahanol gael eu plismona)?**

Rydym yn gwybod bod gan bob plentyn ac unigolyn ifanc brofiadau bywyd unigryw, felly'r allwedd yw cynyddu'r ymddiriedaeth a phlismona yn ôl anghenion unigol, ac anghenion y rhai sydd o'u cwmpas. Ni fydd yr hyn sy'n gweithio i rai plant neu bobl ifanc yn gweithio i eraill, a rhaid i ni ystyried y marc trosiadol y byddwn yn ei adael. Mae ymgysylltu cadarnhaol ar yr oedran ieuengaf posibl yn wirioneddol bwysig. Mae dylanwadu ar y cymunedau y mae ein plant a phobl ifanc yn byw ynddynt hefyd yn hanfodol.

**Sut yr ydych chi'n meddwl y mae plismona ar sail gwybodaeth am drawma yn edrych i oedolion ifanc?**

Mae'r gydnabyddiaeth gynyddol o effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a'r hyfforddiant sy'n cael ei gyflwyno i'n swyddogion a'n staff yn werthfawr iawn at y dyfodol. Rydym eisoes yn gweld y gwahaniaeth y mae dull ar sail gwybodaeth yn gallu ei wneud i leihau trais a throseddu, neu yn wir hunan niweidio. Rwy'n bwriadu gweithio'n glos gydag arweinwyr portffolio eraill i sicrhau ein bod yn parhau i yrru cynnydd yn y maes hanfodol hwn.

**Sut fyddwch chi'n annog y gwasanaeth heddlu i weithredu mwy o gynlluniau dargyfeirio i bobl ifanc i'w cadw allan o'r system gyfiawnder?**

Mae gan fwyafrif llethol y lluoedd heddlu gynlluniau sydd yn newydd, yn datblygu neu yn llwyddiannus wedi eu hanelu at ddargyfeirio plant a phobl ifanc oddi wrth sefyllfaoedd niweidiol. Yn fy rôl wirfoddol flaenorol gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog, fy rôl bresennol fel Ymddiriedolwr ar Fwrdd yr elusen Embrace (Plant sy'n Ddioddefwyr Troseddau) (sy'n cefnogi plant a phobl ifanc sy'n wynebu troseddau a

phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod), a’m rôl plismona o ddydd i ddydd, rwyf wedi gweld drosof fy hun y buddion all newid bywydau y mae cynlluniau fel REBOOT yn gallu eu cynnig. Rwy’n bwriadu llunio mwy o gysylltiadau eto gyda chynlluniau yn gysylltiedig â chwaraeon a chynlluniau eraill sy’n ymdrin â her gynyddol problemau iechyd meddwl. Rwy’n gweld dargyfeirio fel offeryn ataliol sy’n cynyddu sgiliau at y dyfodol.

**Pact: Prosiect 'Clywch Ein Llais'**

Casey Clay, Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchar (Pact)

---

**Beth yw'r Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchar (Pact)?**

Elusen genedlaethol yw Pact sy'n rhoi cefnogaeth i garcharorion, pobl â chollfarnau, a'u teuluoedd. Rydym yn cefnogi pobl iddynt ddechrau o'r newydd a lleihau'r niwed y gall carcharu ei achosi i bobl a'u teuluoedd, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

**Sut ydych chi'n cynnwys pobl ifanc yn eich gwaith?**

Un o'r ffyrdd pwysicaf yr ydym yn cynnwys pobl ifanc yw trwy glywed beth sydd ganddynt i'w ddweud. Rydym yn gofyn i bobl ifanc beth sydd o bwys iddyn nhw ac yn gwrando ar eu syniadau am sut i wneud pethau yn well. Nid ydym am siarad ar ran pobl ifanc, yn hytrach rydym am roi llwyfan iddynt siarad drostynt eu hunain oherwydd nhw yw'r arbenigwyr am eu profiadau eu hunain. Fel rhan o'n prosiect 'Clywch Ein Llais', rydym wedi cefnogi rhai pobl ifanc anhygoel a huawdl i rannu eu profiadau mewn ffordd sy'n ystyrlon iddyn nhw – er enghraifft, dywedodd Ollie a Kyra eu stori trwy animeiddio a gallwch ei gweld ar ein gwefan (www.prisonadvice.org.uk).

**Roedd eich prosiect 'Clywch Ein Llais' yn sôn am effaith cyrchoedd ar gartrefi gan yr heddlu ar bobl ifanc. Beth oedd y negeseuon allweddol a ddaeth o'r gwaith hwn?**

Un o negeseuon pwysicaf ein prosiect 'Clywch Ein Llais' yw ei bod yn hanfodol gwrando ar bobl ifanc fel ein bod yn gallu deall eu profiadau a beth sydd angen newid. Roedd y prosiect cyfan o ganlyniad uniongyrchol i wrando ar bobl ifanc yn dweud wrthym am y trawma o weld cyrch ar eu cartref (gweithredu gwarant mewn cartref teuluol). Datblygwyd yr argymhellion ymarferol a wnaethom mewn partneriaeth â phobl ifanc i ymdrin â'r materion sydd o fwyaf o bwys iddynt. Mae'n hawdd tybio bod raid i unrhyw atebion fod ar raddfa anferth, ond yr hyn a welsom ni mewn gwirionedd oedd bod newidiadau bach hyd yn oed yn gallu cael effaith fawr ar fywydau y rhai yr effeithiwyd arnynt.

Argymhellion ymarferol y prosiect yw:

- Mae angen i ni gael gwybod beth yw graddfa'r broblem. Nid ydym yn gwybod yn bendant faint o blant y mae cyrchoedd ar gartrefi gan yr heddlu yn effeithio arnynt. Dylai llu heddlu cynrychioliadol redeg prosiect data byr i roi ffigwr mwy manwl gywir.
- Dylai'r Coleg Plismona arwain ymdrechion i hyfforddi'r holl swyddogion heddlu newydd am effaith cyrchoedd ar gartrefi gan yr heddlu ar bobl ifanc. Dylai lluoedd heddlu unigol sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei gyflwyno i swyddogion heddlu sydd eisoes yn cymryd rhan mewn cyrchoedd ar gartrefi. Gall newidiadau syml i ymddygiad yr heddlu gael effaith mawr.
- Dylai pob llu heddlu gynnig cyfarwyddyd i swyddogion heddlu i'w helpu i weithredu gwarant. Gall hyn ystyried presenoldeb plant yn ystod y gwaith cynllunio cyn arestio; sicrhau bod swyddog lles plant/diogelu penodol yn bresennol, a gadael 'taflen wybodaeth' i deuluoedd gyda gwybodaeth ddefnyddiol sy'n ateb cwestiynau fel 'Beth sy'n digwydd nesaf?' a 'Sut gallaf gael gwybod i ble y mae rhywun wedi cael ei gymryd?'

**Pa gamau sydd wedi cael eu cymryd gan y gwasanaeth heddlu i ymateb i'r materion sy'n deillio o'r gwaith 'Clywch Ein Llais'?**

Cawsom ymateb cadarnhaol iawn gan luoedd heddlu sy'n awyddus i leihau'r niwed sy'n cael ei achosi i bobl ifanc gan gyrchoedd ar gartrefi. Mae Pact wedi rhoi hyfforddiant 'Clywch Ein Llais' i 78 o swyddogion yn nhîm plismona cymdogaeth Avon a Gwlad yr Haf. Rydym yn gweithio'n glos gyda nhw i roi cyfarwyddyd yn ei le ar gyfer pan fydd cyrchoedd cartrefi yn cael eu cynnal yn y dyfodol. Bydd Pact hefyd yn rhoi hyfforddiant 'Clywch Ein Llais' i luoedd heddlu eraill yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn gobeithio y bydd pob llu heddlu yn y pen draw yn gweithio gyda ni i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel yn ystod cyrchoedd ar gartrefi. Os yw hynny yn rhywbeth y mae gennych ddiddordeb mewn dysgu amdano, cysylltwch trwy anfon e-bost ataf yn casey.clay@prisonadvice.org.uk.

**Pa wasanaethau neu adnoddau ydych chi'n eu darparu i bobl ifanc?**

Mae’r holl wasanaethau ac adnoddau yr ydym yn eu darparu ar gael i unrhyw un y mae carchariad yn effeithio arno, gan gynnwys pobl ifanc, o’n gwefan (gan gynnwys canllawiau digidol i ymwelwyr ar gyfer pob carchar a’n llinell gymorth sydd ar gael saith diwrnod yr wythnos). Cysylltwch os oes gennych gwestiwn neu os oes arnoch angen rhywun i gael sgwrs gydag ef am yr hyn yr ydych yn ei deimlo neu beth sy’n digwydd nesaf. Mae Llinell Gymorth Teuluoedd Carcharorion ar gael ar 0808 808 2003 neu cysylltwch â ni [www.prisonadvice.org.uk](http://www.prisonadvice.org.uk).



Ymunodd **Casey Clay** â Pact 2 flynedd yn ôl ac mae’n gweithio ar hyn o bryd fel Rheolwr Rhaglen De Orllewin Lloegr.

**Gair o brofiad gan aelodau panel ieuenctid yr IOPC**

---

Gall profiadau pobl ifanc gyda'r heddlu siapio eu barn a'u perthynas â'r heddlu yn y dyfodol. Yn yr erthygl hon rydym yn edrych ar yr hyn a ddywedodd aelodau'r panel ieuenctid wrthym am eu cyswllt â'r heddlu.

---

**Amy**

"Roedd y swyddogion heddlu lleol o gwmpas fy ysgol o hyd, yn sgwrsio hefo pobl ac yn dweud helo wrthym i gyd. Roedden nhw'n arbennig o gyfeillgar ac wastad yn ein hannog i wneud yn dda yn yr ysgol. Roeddent yn rhedeg nifer o weithdai yn ystod fy amser yn yr ysgol a dyna sydd wedi gwneud i mi fod eisiau bod yn swyddog heddlu. Rwyf am gael effaith ar fywydau pobl eraill, yn union fel y cawsant hwy ar fy mywyd i."

---

**Ola**

"Mae fy mhrofiad i gyda'r heddlu wedi fy ngadael gydag effaith a barn negyddol am yr heddlu. Mae fy mhrofiad wedi fy ngwneud yn amheus o'r heddlu ac yn gyffredinol yn anesmwyth pan fyddant yn dod ataf."

---

**Sarah**

"Cefais fy arestio yn fy arddegau am ddwyn o siop, ac fe wnaeth rheolwr y siop fy nghadw yn yr ystafell gefn nes cyrhaeddodd yr heddlu. Esboniais i'r swyddogion wrth iddynt gyrraedd nad oeddwn wedi bwriadu dwyn, ac yn bennaf bod yr eitemau wedi sticio ar ben fy mag wrth i mi adael y siop. Ond, fe wnaeth y swyddogion barhau i'm harestio, rhoi cyffion arnaf, a mynd â fi i'r orsaf heddlu i'r achos gael ei brosesu. Cefais fy nghadw mewn cell am bedair awr, ac yna fy rhyddhau heb unrhyw gamau pellach."

---

**Shawny**

"Fel rhan o gynllun cenedlaethol dan y teitl 'Takeover Challenge', cefais y cyfle i gamu i fyd plismona am y diwrnod. Siaradais ag amrywiaeth eang o bobl am eu rôl yng ngwasanaeth y sir, yn ogystal â thrafod y materion allweddol yn ymwneud â phobl ifanc a'u perthynas â'r heddlu. Gwahoddwyd fi i siarad gyda swyddogion arfau tanio yn Thirsk, a bûm yn gweld prif swyddfa heddlu Gogledd Swydd Efrog yn Northallerton i siarad hefo'r tasglu gwledig, swyddogion recriwtio a'r prif gwnstabl gweithredol dros dro oedd newydd ei benodi. Dywedwyd wrthyf bod heddlu Gogledd Swydd Efrog yn gweithio ar wella eu perthynas ag aelodau iau y cyhoedd; mae'r tîm recriwtio yn annog pobl iau i gymryd rhan mewn plismona trwy brofiad gwaith, gwirfoddoli ac addysg; ac roedd y tîm gwledig yn edrych ar weithio ochr yn ochr â chynlluniau lleol i gael pobl ifanc yn fwy gweithredol mewn cymunedau gwledig.

Yn gyffredinol, roedd y profiad o gael siarad am y berthynas waith rhwng yr heddlu a phobl ifanc yn gyfle gwerthfawr. Mae'r berthynas rhwng pobl ifanc a sefydliadau yn y sector plismona, gan gynnwys lluoedd heddlu a'r IOPC, yn rhywbeth sy'n bwysig y dyddiau hyn. Dangosodd y profiadau a gefais pa mor gadarnhaol y gall y deilliannau fod pan fydd yr heddlu yn atebol a didwyll."

---

**Ahmed**

“Pan fydd stopio a chwilio yn cael ei gynnal gan swyddog, os yw’n cael ei weld fel offeryn sy’n helpu i atal troseddu neu beidio, mae’n un o’r pethau mwyaf diraddiol ac annifyr yr wyf wedi dod ar eu traws! Pan oedd stopio a chwilio yn digwydd i mi, roeddwn yn teimlo nad oedd gennyf y gallu i wneud dim am y peth, yn ogystal â theimlo yn agored ac yn weladwy i’r cyhoedd. Mae swyddogion yn eich bychanu ac ar ben y cyfan nid oes dim yn cael ei ganfod arnaf fi nac yn fy nghar! Nid oes fyth ymddiheuriad ac ni wneir dim i adfer y sefyllfa. Mae hyn wedi achosi diffyg hyder yn yr heddlu, i mi a miloedd o bobl ifanc eraill tebyg i mi. Heb gyfiawnhad neu’r “mae’n digwydd dan adran 60” arferol, mae’r heddlu’n atgyfnerthu’r syniad eu bod yn fy stopio a’m chwilio gan fy mod yn ffitio’r disgrifiad o ‘droseddwr nodweddiadol’.”

**Achos 3 – Peidio ag ymchwilio i honiadau o gam-drin rhywiol ar blant**

Roedd merch 16 mlwydd oed wedi gwneud honiadau o ymosodiad rhywiol yn erbyn ei llys-dad. Datgelodd ei fod wedi ymddwyn yn amhriodol yn rhywiol tuag ati yn y gorffennol, a'i fod yn awr yn gwneud yr un peth tuag at ei chwaer bum mlwydd oed. Honnodd yn benodol ei fod yn cyffwrdd ei chwaer yn amhriodol wrth newid ei chlwt.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Hyb Diogelu Amlasiantaethol (MASH), a phenderfynwyd y byddai ymweliad asiantaethau ar y cyd yn cael ei gynnal gan yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol. Aeth ditectif gwnstabl a chwnstabl heddlu o uned ymchwiliadau difrifol y llu heddlu (SIU) ar ymweliad ar y cyd gyda gweithiwr cymdeithasol ar y diwrnod y gwnaed yr honiadau.

Y ditectif gwnstabl oedd yn arwain yn ystod yr ymweliad ar y cyd gan mai swyddog amhrofiadol oedd y cwnstabl heddlu â dim ond pythefnos o brofiad yn y SIU.

Yn ystod yr ymweliad, gwnaeth cyfnither 16 oed y ferch oedd wedi gwneud yr honiadau gwreiddiol honiadau pellach yn erbyn y llys-dad. Honnodd y ddwy ei fod wedi eu cyffwrdd yn amhriodol pan oeddent yn iau.

Roedd y datgeliadau yn cyfateb i o leiaf ddau honiad dan Adran 9(1) *Deddf Troseddau Rhywiol 2003.* Mae Atodiad C *Deddf Troseddau Rhywiol 2003* yn datgan, pan fydd honiad o gam-drin yn cyfateb i drosedd, yr heddlu bob amser sydd yn cael blaenoriaeth ar yr ymchwiliad troseddol.

**ADRAN 9(1) DEDDF TROSEDDAU RHYWIOL 2003**

Mae Adran 9(1) Deddf Troseddau Rhywiol 2003 yn datgan:

A person aged 18 or over (A) commits an offence if—
(a) he intentionally touches another person (B),
(b) the touching is sexual, and
(c) either—
(i) B is under 16 and A does not reasonably believe that B is 16 or over, or
(ii) B is under 13.

**Dysgwch ragor:**
https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/42/section/9

Er gwaethaf hyn, dywedodd y ddwy swyddog wrth y gweithiwr cymdeithasol tra'r oeddynt yn y cartref na fyddai gan yr heddlu unrhyw ran bellach. Dywedwyd y byddai'r ymchwiliad yn parhau fel ymchwiliad un asiantaeth yn cael ei gynnal gan y gwasanaethau cymdeithasol. Ni wnaethant siarad â'r chwaer bum mlwydd oed, er bod yr honiad gwreiddiol yn cyfeirio ati hi yn bennaf. Ni wnaethant gofnodi dim oedd wedi ei ddatgelu iddynt fel troseddau.

**Rheolau cyfrif y Swyddfa Gartref**

Mae rheolau cyfrif y Swyddfa Gartref yn nodi:

"Bydd digwyddiad yn cael ei gofnodi fel trosedd ar gyfer troseddau yn erbyn dioddefwr a ddynodir os, ym mhob tebygolrwydd, bod yr amgylchiadau a gofnodir yn cyfateb i drosedd fel y'i diffinnir gan y gyfraith ac nad oes unrhyw dystiolaeth gredadwy i'r gwrthwyneb."

**Dysgwch ragor:**
https://www.gov.uk/government/publications/counting-rules-for-recorded-crime

Rhoddodd y ddwy adroddiad i'w goruchwyliwr y byddai'r mater yn cael ei drin fel ymchwiliad un asiantaeth gan y gwasanaethau cymdeithasol gan nad oedd unrhyw ddatgeliad clir ac nad oedd unrhyw bryderon diogelu ar unwaith. Ni wnaeth y ditectif sarsiant oedd yn eu goruchwylio adolygu'r achos.

Cynhaliodd y gwasanaethau cymdeithasol eu hymchwiliad eu hunain, a gwnaed rhagor o honiadau yn erbyn y llys-dad yn ystod y rheiny. Ni wnaeth y gwasanaethau cymdeithasol drosglwyddo'r wybodaeth hon, nac unrhyw wybodaeth bellach, i'r llu gan y dywedwyd wrthynt bod y mater yn ymchwiliad un asiantaeth.

Cyn pen wythnos o'r ymweliad ar y cyd, gwnaeth aelod o'r uned rheoli troseddau (CMU) gofnod ar log yr achos yn nodi y dylai'r achos gael ei gofnodi fel trosedd, un adroddiad i bob merch a phob honiad yn erbyn y llys-dad. Nid oedd yn sicr bod trosedd wedi cael ei chyflawni, a gadawodd y penderfyniad i'r swyddog cyfrifol. Ni wnaeth greu tasg i sicrhau bod y swyddog cyfrifol yn gweld y cyngor oherwydd nad oedd hynny'n rhan o'r polisi. Roedd yn cael ei dybio yn y llu y byddai swyddogion cyfrifol yn adolygu eu hachosion yn gyson.

Ond, ni chynhaliwyd adolygiad o'r fath. Roedd hyn yn wir oherwydd, er ei bod wedi arwain ar yr ymweliad ar y cyd, nid oedd y ditectif gwnstabl yn cael ei rhestru fel y swyddog cyfrifol ar system reoli achosion y llu heddlu (CMS). Dyrannwyd y dasg a ddylai fod wedi sicrhau bod yr achos yn cael ei ddyrannu ar gam i'r ardal anghywir o'r llu. Nododd aelod o staff yr heddlu bod y dasg hon wedi ei chwblhau, heb wirio hynny, gan nad oedd unrhyw gamau i'w thîm hi.

Cyfeiriwyd yr achos at dditectif sarsiant mewn rôl gefnogol. Roedd hyn yn cynnwys dyrannu gwaith i swyddogion sarsiantiaid eraill, ond nid ymchwilio nac adolygu achosion. Oherwydd natur y rôl hon, roedd ganddi nifer o achosion yn agored. Ni wnaeth sylwi bod yr achos wedi cael ei ddyrannu iddi hi hyd 13 mis ar ôl i'r honiad gwreiddiol gael ei wneud.

Sylwodd bod y ditectif gwnstabl oedd wedi mynd ar yr ymweliad wedi ychwanegu nodiadau am yr ymweliad at yr achos. Cysylltodd â hi i ofyn iddi "ddiweddaru a chau" yr achos. Tybiai bod yr achos yn barod i'w gau gan ei fod wedi bod yn agored ers 13 mis. Gan fod y ditectif gwnstabl yn swyddog profiadol, roedd yn tybio y byddai wedi cymryd y camau angenrheidiol yn barod. Er enghraifft, y byddai'r achos wedi cael ei adolygu gan ei goruchwyliwr.

Naw diwrnod yn ddiweddarach, caeodd y ditectif gwnstabl yr achos gan ddatgan: "ni roddwyd datgeliad clir i [y cwnstabl heddlu oedd yn bresennol hefyd] wrth ofyn cwestiynau i'r merched. Dim camau pellach gan yr heddlu." Honnodd ei bod wedi siarad â'r cwnstabl heddlu ar y ffôn a bod y cwnstabl heddlu wedi dweud wrthi nad oedd datgeliad clir. Roedd y cwnstabl heddlu yn anghytuno â hyn, gan ddweud eu bod wedi siarad ar y ffôn ar ddyddiad gwahanol a'i bod wedi dweud wrth y ditectif gwnstabl na allai gofio'r canlyniad. Roedd cofnodion ffôn yn cefnogi adroddiad y cwnstabl heddlu.

Ar yr un diwrnod gwnaeth y ditectif gwnstabl ei chofnod anghywir, dyrannodd dasg i'r CMU i'r achos gael ei gau. Trwy gamgymeriad roedd yn credu y byddai'r CMU wedi dewis peidio â chau'r achos petaent yn credu na ddylai fod wedi ei gau. Cadwodd clerc gweinyddol yr achos mewn ffeil heb gynnal gwiriadau pellach gan nad oedd adolygu'r achosion yr oedd yn eu cadw yn rhan o rôl y clerc.

Daeth y ffaith nad oedd y mater hwn wedi cael ei ymchwilio i'r amlwg oherwydd, 14 mis ar ôl i'r achos gael ei gau, honnodd y chwaer bump oed wrth staff ei hysgol gynradd bod y llys-dad wedi ymddwyn mewn modd amhriodol yn rhywiol tuag ati. Wrth ymchwilio i'r mater hwn, darganfu'r llu yr ymchwiliad i'r honiadau blaenorol a wnaed yn erbyn y llys-dad. Atgyfeiriwyd y mater at yr IOPC oherwydd y diffyg gweithredu ymddangosiadol gan yr heddlu.

**Cwestiynau allweddol i lunwyr polisïau/rheolwyr:**

- Sut ydych chi'n sicrhau y dywedir wrth swyddogion pa achosion sy'n rhan o'u baich achosion hwy?
- Beth fyddwch chi'n ei wneud i sicrhau na fydd ymchwiliadau difrifol yn 'diflannu oddi ar y radar'?
- Sut fyddwch chi'n sicrhau bod swyddogion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau arwyddocaol pan fydd rheolaeth ar ymchwiliad wedi cael ei drosglwyddo i asiantaeth arall?

**Cwestiynau allweddol i swyddogion heddlu/staff:**

- Beth fyddwch chi'n ei wneud i sicrhau bod eich baich achosion yn cael ei adlewyrchu yn gywir ar systemau'r llu heddlu ac i'r gwrthwyneb?
- Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i osgoi tybiaethau anghywir am rolau a chyfrifoldebau eich cydweithwyr?

**Deilliannau i'r swyddogion/staff oedd yn rhan o'r digwyddiad:**

- Cafwyd bod gan y ditectif gwnstabl oedd yn arwain yn ystod yr ymweliad ar y cyd ac a gaeodd yr achos 13 mis wedyn gyda chofnod ffug, heb gynnal unrhyw ymchwiliad, achos i'w ateb am gamymddygiad difrifol. Gadawodd y llu ond cynhaliwyd gwrandawiad yn ei habsenoldeb. Canfuwyd ei bod wedi torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol o ran 'didwylledd ac unplygrwydd' a 'dyletswyddau a chyfrifoldebau'. Y penderfyniad oedd y byddai wedi cael ei diswyddo petai wedi parhau yn swyddog. Penderfynodd y panel hefyd y dylai gael ei rhoi ar y rhestr waharddedig o ran pryderon am ei hunplygrwydd a'i gallu.
- Nid oedd achos i'r cwnstabl heddlu dibrofiad a aeth ar yr ymweliad hefyd i'w ateb.
- Derbyniodd yr aelod o staff yr heddlu a nododd nad oedd y dasg yn un iddi fel un wedi ei chwblhau, heb ei gwirio, gamau rheoli.
- Cafwyd bod gan y ditectif sarsiant oedd yn oruchwyliwr i'r ditectif gwnstabl a'r cwnstabl heddlu ac a ddylai fod wedi adolygu'r ymchwiliad, achos i'w ateb am gamymddygiad am dorri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol o ran 'dyletswyddau a chyfrifoldebau'. Ystyriwyd nad oedd angen cyfarfod camymddygiad. Rhoddwyd camau rheoli iddo i'w atgoffa o bwysigrwydd cynnal adolygiadau cychwynnol ar achosion a ddyrennir i'w staff, ac i ofyn am eglurder gan ei staff yn dilyn ymweliadau ar y cyd i sicrhau bod unrhyw benderfyniadau yn cael eu herio yn briodol pan fydd angen.
- Ni chanfuwyd bod gan y ditectif sarsiant y dyrannwyd yr achos iddi trwy gamgymeriad ac y bu'n eistedd gyda hi am 13 mis, achos i'w ateb am gamymddygiad. Roedd yn ofynnol iddi fynd i gyfarfod gweithdrefnau perfformiad anfoddhaol cam cyntaf i'w hatgoffa i adolygu pob achos a ddyrennir iddi yn gyson, i sicrhau bod ei llwyth achosion yn gywir, ac nad oes unrhyw faterion risg uchel wedi cael eu dyrannu iddi trwy gamgymeriad.

**Achos 4 – Digwyddiad hunan-niweidio yn y ddalfa**

Tua hanner dydd, dywedwyd wrth swyddog heddlu bod dyn 16 oed wedi cyflawni difrod troseddol yn ei gartref gofal a'i fod ar goll.

Arestiwyd y dyn ifanc yng nghartref mam ei gariad tua hanner awr ar ôl i'r swyddog gael gwybod am y digwyddiad. Fe'i rhybuddiwyd ac aed ag ef i'r swyddfa heddlu.

Cofnododd sarsiant y ddalfa fanylion y dyn ifanc a'i roi yn y ddalfa gan wneud asesiad risg. Dywedodd y dyn ifanc ei fod wedi bod yn yfed, yn cymryd cyffuriau, a bod gan y gwasanaethau cymdeithasol gyfrifoldeb rhiant amdano. Nododd sarsiant yr heddlu bod ar y dyn ifanc angen oedolyn priodol, diogelu, a bod arwyddion rhybuddiol o ran pryder a hunan-niweidio. Cynhaliodd y sarsiant heddlu wiriad Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC). Datgelodd hyn bod marcwyr ar gyfer trais, arfau, cyffuriau ac iechyd meddwl. Gosododd y sarsiant heddlu'r lefel arsylwi ar lefel un gydag ymweliadau bob 30 munud.

Aed â'r dyn ifanc i gell pobl ifanc gyda chamera cylch cyfyng.

Dywedodd y dyn ifanc wrth y sarsiant heddlu nad oedd yn teimlo'n dda a bod effaith y cyffuriau'n dod i ben. Gofynnodd y sarsiant heddlu am weithiwr iechyd proffesiynol (HCP). Dynodwyd mam cariad y dyn ifanc fel ei oedolyn priodol.

Ymwelodd yr HCP â'r dyn ifanc a chadarnhau bod gwiriadau lefel un yn briodol.

**Arfer Proffesiynol a Ganiateir (APP) y Coleg Plismona – lefelau arsylwi**

**Arsylwi Lefel 1**

Yn dilyn asesiad risg, dyma'r lefel gofynnol ar gyfer arsylwi sy'n ofynnol ar gyfer unrhyw un yn y ddalfa. Mae'n cynnwys y camau canlynol:

- Cadw golwg ar yr un yn y ddalfa bob awr o leiaf (yr asesiad risg i gael ei ddiweddaru pan fydd angen)
- Gwiriadau yn cael eu cynnal yn sensitif er mwyn achosi cyn lleied o amharu â phosibl
- Os na chaiff unrhyw risg resymol y gellir ei rhagweld ei dynodi, nid oes raid i staff ddeffro rhywun sy'n cysgu (ond rhaid dal i gadw golwg ar yr un sy'n y ddalfa sy'n cysgu, ac os bydd unrhyw newid yng nghyflwr yr un sydd yn y ddalfa yn creu risg newydd, rhaid deffro'r un sydd yn y ddalfa)
- Os yw'r un sydd yn y ddalfa yn effro, dylai'r staff gyfathrebu ag ef/hi.

**Dysgwch ragor:**
https://www.app.college.police.uk/app-content/detention-and-custody-2/detainee-care/#levels-of-observation

Tua 3 o'r gloch y prynhawn, trosglwyddodd y sarsiant heddlu i sarsiant heddlu gwahanol. Dywedwyd wrth y sarsiant heddlu newydd bod y dyn ifanc mewn gofal gyda hanes o hunan-niweidio a gorbryder.

Tua hanner awr yn ddiweddarach, ymwelodd swyddog y ddalfa â'r dyn ifanc yn ei gell a rhoi cofnod bloc yn log y ddalfa ar gyfer nifer o wiriadau cell. Dywedodd swyddog y ddalfa ei fod yn gwneud hyn am ei bod yn anodd, er enghraifft, ymweld ag 14 cell a gwneud 14 cofnod gwahanol o ystyried yr amser y byddai'n ei gymryd i ychwanegu cofnod ar system y llu heddlu.

Yn fuan wedyn, gofynnodd y dyn ifanc pa mor hir fyddai hi nes y byddai'n cael cyfweliad. Dywedwyd wrtho nad oedd amserlen wedi ei gosod eto. Ymatebodd y dyn ifanc trwy ddweud, petai'n cymryd yn rhy hir, y byddai'n ei ladd ei hun.

Nododd y sarsiant heddlu na wnaeth hyn iddo newid yr asesiad risg na'r lefelau arsylwi oherwydd nad oedd dim i gadarnhau'r honiadau ac nid oedd unrhyw wybodaeth ychwanegol a fyddai'n newid lefel y risg. Dywedodd ei fod yn meddwl mai bygythiad amodol oedd hwn yn ddibynnol ar amserlen ar gyfer y cyfweliad.

***Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol* (PACE) Cod C**

Rhaid i asesiadau risg ddilyn proses strwythuredig sy'n diffinio'n eglur y categorïau risg i'w hystyried, a rhaid cynnwys y canlyniadau yng nghofnod cadw'r sawl sy'n cael ei gadw. Mae swyddog y ddalfa yn gyfrifol am sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am gyfnod y person yn y ddalfa yn cael eu briffio'n briodol am y risgiau. Os na nodir unrhyw risgiau penodol yn yr asesiad, dylid nodi hynny yn y cofnod cadw.

**Dysgwch ragor:**
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/664247/60104_PACE_Code_C_Text-web-accessible.pdf

Am tua 4.30pm ymwelodd swyddog y ddalfa â'r dyn ifanc am ddwy eiliad. Ychydig funudau'n ddiweddarach aeth swyddog y ddalfa arall â'r dyn ifanc i'r toiled a'i adael ar ei ben ei hun am 52 eiliad. Aed ag ef yn ôl i'w gell.

Yn fuan ar ôl dychwelyd i'w gell, dangosodd y camera cylch cyfyng bod y dyn ifanc yn tynnu ei grys t. Rhwygodd y crys i wneud nifer o stribedi gan eu clymu o gwmpas ei wddw a'i ddwylo. Fe wnaeth hyn am tua 45 munud. Yn ystod yr amser hwnnw, ymwelodd un o swyddogion y ddalfa â'r gell am dair eiliad. Aeth at ddrws y gell a symud y gorchudd metel oedd dros y ffenestr. Roedd y camera cylch cyfyng yn dangos bod y dyn ifanc yn eistedd gyferbyn â drws y gell yn rhwygo ei grys t. Cofnododd swyddog y ddalfa bod y dyn ifanc yn effro ac yn ymddangos yn iawn.

Yn fuan wedyn gwelwyd y dyn ifanc ar y camera cylch cyfyng yn rhoi rhwymyn am ei wddw. Roedd yn gwneud arwydd fel pe bai yn ei glymu cyn ei dynnu eto.

Tua 5.30pm, ymwelodd swyddog y ddalfa â'r dyn ifanc yn ei gell. Rhoddodd y dyn ifanc y rhwymau i swyddog y ddalfa ar ôl sgwrs nad oedd wedi ei chofnodi ar dâp sain.

Dywedodd swyddog y ddalfa a wnaeth y gwiriad hwn wrth sarsiant yr heddlu ei fod wedi cymryd sgarff oddi ar y dyn ifanc a'i fod yn ystyried hunanladdiad. Dywedodd y sarsiant heddlu wrth yr IOPC ei fod yn ystyried, wrth gael gwared ar y sgarff, ei fod wedi cael gwared o'r bygythiad. Dywedodd hefyd, petai wedi deall mai crys t wedi ei rwygo oedd dan sylw, y gallai fod wedi achosi mwy o bryder iddo.

Tynnodd y dyn ifanc rwymyn arall oedd dan y blancedi ar ei wely a'i glymu o gwmpas ei wddw.

Tua 6.05pm, aed â'r dyn ifanc i'r ystafell gyfweld gyda'i gyfreithiwr ac oedolyn priodol (mam ei gariad). Yn ystod y cyfweliad aeth y dyn ifanc yn anesmwyth a bu'n ymaflyd â'r swyddog cyfweld. Rhedodd y dyn ifanc o'r ystafell gyfweld a dywedodd y swyddog cyfweld ei fod yn bryderus am ddiogelwch y dyn ifanc. Ceisiodd gydio amdano fel arth, ond nid oedd yn gallu defnyddio coesau'r dyn ifanc i wthio yn eu herbyn. Trwy hynny tarodd y dyn ifanc ei ben yn y wal.

Tarodd y swyddog cyfweld y larwm panig ac aeth nifer o swyddogion i'r gell. Gwelodd un o'r swyddogion y dyn ifanc yn taro ei ben yn y llawr yn fwriadol. Aed â'r dyn ifanc yn ôl i'w gell.

Pan oedd y dyn ifanc ar ei ben ei hun yn y gell, clymodd rwymyn o gwmpas ei wddw a thynnu'r ddau ben yn dynn. Aeth swyddog i'r gell a cheisio tynnu'r rhwymyn, cyn pwyso'r botwm panig. Daeth dau swyddog i mewn i helpu ond ni lwyddwyd i dynnu'r rhwymyn.

Aeth swyddog y ddalfa i'r gell a rhoi cyllell ddiogelwch i'r swyddogion i dorri'r rhwymyn. Llwyddodd y sarsiant heddlu i dawelu'r dyn ifanc i lawr trwy ddweud eu bod yn ymdrin â'i gyhuddiad difrod troseddol.

Rhoddodd sarsiant yr heddlu ganiatâd i'r dyn ifanc gael ei noeth-chwilio. Dywedodd bod hyn i gael gwared o eitem nad oedd gan y dyn ifanc hawl i'w gael a'i roi mewn siwt atal niwed. Roedd swyddog benywaidd yn bresennol yn y gell am bum eiliad gyntaf y noeth-chwiliad. Nid oedd oedolyn priodol y dyn ifanc yn bresennol yn ystod y chwiliad. Pan holwyd y sarsiant heddlu am hyn, dywedodd ei fod oherwydd ei fod yn credu nad oedd unrhyw risg o niwed i'r dyn ifanc ar y pryd. Felly, roedd ganddo hawl i'w noeth-chwilio heb oedolyn priodol.

Cynhaliwyd y noeth-chwiliad mewn ystafell â chamera cylch cyfyng â'r drws yn agored.

***Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol*** **(Cod C) – Atodiad A – noeth-chwiliadau ac archwiliadau personol**

Pan gynhelir noeth-chwiliadau:

(a) rhaid i swyddog yr heddlu sy'n cynnal noeth-chwiliad fod o'r un rhyw â'r sawl sy'n cael ei gadw (gweler Atodiad L);

(b) cynhelir y noeth-chwiliad mewn man lle na all unrhyw un arall nad oes angen iddynt fod yn bresennol, nac unrhyw un o'r rhyw arall (gweler Atodiad L) ac eithrio oedolyn priodol y mae'r sawl sy'n cael ei gadw wedi gofyn yn benodol i fod yn bresennol, weld y sawl sy'n cael ei gadw;

(c) ac eithrio mewn achosion brys, pan fo risg o berygl difrifol i'r sawl sy'n cael ei gadw neu i eraill, pan fo noeth-chwiliad yn golygu y bydd rhannau preifat o'r corff yn y golwg, rhaid i o leiaf ddau berson fod yn bresennol ar wahân i'r sawl sy'n cael ei gadw, ac os yw'r person dan sylw yn berson ifanc neu os oes ganddo anhwylder meddwl neu os yw fel arall yn agored i niwed yn feddyliol, rhaid i un o'r oedolion fod yn oedolyn priodol y person dan sylw. Ac eithrio mewn achosion brys megis y rhai a nodir uchod, gellir cynnal chwiliad ar berson ifanc yn absenoldeb yr oedolyn priodol os yw'r person ifanc yn datgan ym mhresenoldeb yr oedolyn priodol, nad yw'n dymuno i'r oedolyn fod yn bresennol yn ystod y chwiliad a bod yr oedolyn yn cytuno. Gwneir cofnod o benderfyniad y person ifanc ac fe'i llofnodir gan yr oedolyn priodol. Caniateir i fwy na dau berson fod yn bresennol, ac eithrio'r oedolyn priodol, yn yr amgylchiadau mwyaf eithriadol yn unig.

**Dysgwch ragor:**
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/664247/60104_PACE_Code_C_Text-web-accessible.pdf

Tynnodd y dyn ifanc y dillad oddi ar ran uchaf ei gorff a rhoddodd un o'r swyddogion ddillad atal niwed iddo. Rhoddodd y dilledyn uchaf ymlaen cyn tynnu rhan isaf ei ddillad. Gellir gweld y dyn ifanc ar y camera cylch cyfyng yn ceisio cuddio ei gorff tu ôl i'r siorts atal niwed a blanced. Dywedodd sarsiant y ddalfa wrth yr IOPC nad oedd yn chwilio'r dyn ifanc tra'r oedd yn newid.

Ni welwyd y dyn ifanc gan HCP yn ystod ei amser yn y ddalfa na chyn iddo gael ei ryddhau tua 10pm. Cyrhaeddodd HCP y ddalfa cyn pen awr o gael ei alw, ond rhoddwyd blaenoriaeth i rai eraill oedd yn y ddalfa.

Nododd sarsiant yr heddlu ar yr asesiad risg ar-lein cyn rhyddhau'r dyn ifanc bod ganddo dueddiadau tuag at hunanladdiad a hunan-niweidio, a'i fod wedi clymu rhwymyn am ei wddw yn ystod ei gyfnod yn y ddalfa. Nododd hefyd bod gwasanaethau cymdeithasol wedi cael gwybod ac y byddai yn aros dan ofal mam ei gariad.

**Cwestiynau allweddol i lunwyr polisïau/rheolwyr:**

- Sut mae eich llu heddlu yn sicrhau bod noeth-chwiliadau yn cael eu cynnal fel na all unrhyw un (ac eithrio oedolyn priodol) weld?
- Sut mae eich llu heddlu yn sicrhau bod noeth-chwiliadau ar bobl ifanc neu oedolion bregus yn digwydd bob amser gydag oedolyn priodol, ac eithrio pan fydd yr unigolyn sy'n cael ei chwilio yn rhoi caniatâd ac y bydd yr unigolyn priodol yn cytuno?

- Sut mae eich llu yn sicrhau bod asesiadau risg am bobl sy’n cael eu cadw yn y ddalfa yn cael eu hadolygu yn gyson?
- Pa gyfarwyddyd ydych chi’n ei roi i swyddogion am asesu’r risg i blant a phobl ifanc sy’n cael eu dwyn i’r ddalfa, ac a yw hyn yn wahanol i’r cyfarwyddyd a roddir i swyddogion wrth asesu risg yng nghyswllt oedolion?
- Sut mae eich llu heddlu yn sicrhau na fydd swyddogion o ryw gwahanol yn bresennol pan fydd rhywun yn cael ei noeth-chwilio?

**Cwestiynau allweddol i swyddogion heddlu/staff:**

- A fyddech wedi ystyried arsylwi yn barhaus ar yr unigolyn ifanc?
- A fyddech wedi gwneud rhywbeth yn wahanol ar ôl i’r dyn ifanc fygwth lladd ei hun?
- A fyddech wedi gwneud rhywbeth yn wahanol pan dderbyniwyd y dyn ifanc i’r ddalfa i gychwyn, yn benodol yr asesiad risg?

**Rhoi llais i bobl ifanc yn yr IOPC**

Lizzy Jones, Uwch Reolwr Ymgysylltu â Rhanddeiliaid, IOPC

Tom Jones, Swyddog Ymgysylltu â Rhanddeiliaid, IOPC

Ers 15 mlynedd rydym wedi olrhain hyder y cyhoedd yn system gwynion yr heddlu. Yn gyson mae'r data wedi dangos mai gan bobl ifanc a chymunedau du a lleiafrifoedd ethnig y mae lleiaf o hyder. Pobl ifanc hefyd sydd leiaf ymwybodol bod corff annibynnol yn goruchwylio'r system gwynion.

Roeddem am ddeall yn well beth sy'n achosi'r diffyg hyder ymhlith pobl ifanc, beth sy'n eu hatal rhag cyflwyno cwyn, ac i gael cyngor gan bobl ifanc ar sut y gallwn gynyddu eu hymddiriedaeth. Roeddem hefyd am greu dull tymor hir, wedi ei strwythuro i bobl ifanc gael llais yn yr IOPC i roi gwybodaeth ar gyfer ein gwaith ac i graffu arno.

Yn Ionawr 2018, gyda help Leaders Unlocked, sefydlwyd panel ieuenctid yr IOPC, yn cynnwys 28 o bobl ifanc 16-25 oed gydag amrywiaeth o gefndiroedd a phrofiadau bywyd. Cydarweiniodd ein panel ieuenctid ddigwyddiadau ymgynghori gyda mwy na 800 o'u cyfoedion o bob rhan o Gymru a Lloegr. Ar ddiwedd y gwaith hwnnw, cyflwynwyd adroddiad i ni yn nodi beth yr oeddent wedi ei glywed am y rhwystrau a'r hyn sy'n dylanwadu ar ymddiriedaeth pobl ifanc yn system gwynion yr heddlu. Mae eu canfyddiadau ar draws pum thema yn berthnasol, nid yn unig i'r IOPC, ond i bawb sy'n gweithio mewn plismona.

Canfu'r panel ieuenctid broblem sylweddol gyda **diffyg grym** yn wyneb awdurdod. Teimlai pobl ifanc na fyddent yn cael eu cymryd o ddifri, neu hyd yn oed eu credu, gan y rhai mewn awdurdod, oherwydd eu hoedran a'u diffyg statws.

Un o'r ffactorau allweddol tu ôl i'r ymdeimlad yma o ddiffyg grym yw nad yw llawer o bobl ifanc yn deall rôl a phwerau yr awdurdodau y maent yn rhyngweithio â nhw, ac nad ydynt yn deall eu hawliau yng nghyswllt yr awdurdodau yma, yr heddlu yn enwedig.

Nid oedd y bobl ifanc yn deall pwerau'r heddlu, beth sydd yn gamymddygiad, na'u hawliau yng nghyswllt ymddygiad yr heddlu. Dywedodd llawer o bobl ifanc y byddai ganddynt ofn cwyno, gan ofni'r canlyniadau a'r effeithiau gan yr heddlu a'u cymunedau.

Wrth archwilio **deinameg ymddiriedaeth,** canfu'r panel ieuenctid bod llawer o bobl ifanc yn syml ddim yn ymddiried mewn awdurdodau, ac yn arbennig yr heddlu. Roedd gan bobl ifanc amheuon am berthynas yr IOPC â'r heddlu, ac a ydym yn defnyddio digon o rym dros yr heddlu i gyflawni cyfiawnder gwirioneddol i ddinasyddion y mae camymddygiad yn effeithio arnynt. Nid oeddent yn teimlo y gallent ymddiried yn y broses gwynion, gan fod rhaid i berson ifanc gyflwyno cwyn i'r llu heddlu y maent yn teimlo eu bod wedi cael cam ganddynt yn gyntaf.

Canfu'r panel ieuenctid bod nodweddion hunaniaeth ac amrywiaeth, yn benodol oedran, ethnigrwydd, dosbarth, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, a phrofiad bywyd, yn cael effaith gwirioneddol ar ymddiriedaeth a hyder. Roedd pobl ifanc o **grwpiau ymylol a lleiafrifol** yn teimlo eu bod yn llai tebygol o gael eu credu ac yn fwy tebygol o ddioddef gwahaniaethu wrth gyflwyno cwyn.

Tanlinellodd y bobl ifanc hefyd y rôl allweddol sydd gan **gyfryngau cymdeithasol a dylanwadau cymdeithasol ehangach**. Dywedodd pobl ifanc wrthym bod storïau a delweddau negyddol am ymddygiad yr heddlu yn cael eu lledaenu yn gyflym iawn ar gyfryngau cymdeithasol, gyda phostiadau a fideos yn cael eu rhannu yn gyflym, ac yn cyfrannu at ddarlun wedi ei gam-ystumio o realiti.

Dywedodd pobl ifanc y gall cyfryngau cymdeithasol fwydo amgyffrediad negyddol o'r genhedlaeth iau gan yr heddlu. Ymhlith pobl ifanc yn gyffredinol, a'r rhai o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn neilltuol, canfu'r panel bod llawer o bobl ifanc yn osgoi unrhyw gyswllt â'r heddlu rhag ofn cael eu labelu yn 'brep'. Mewn rhai cymunedau a diwylliannau, dywedodd pobl ifanc y byddai unrhyw gyswllt â'r heddlu yn cael ei weld yn annerbyniol. O ganlyniad, mewn rhai achosion gall pobl ifanc gael eu darbwyllo i beidio â chyflwyno cwyn gan aelodau o'u teuluoedd.

Canfu'r panel ieuenctid bod rhai rhwystrau ymarferol iawn yn wynebu pobl ifanc a all fod am gyflwyno cwyn. Dywedodd pobl ifanc na fyddent yn gwybod ble i fynd i gwyno a, phan esboniwyd y broses gwyno iddynt, canfu'r panel y gallai'r broses ei hun atal pobl ifanc rhag cwyno. Mynegodd pobl ifanc bryder am hyd yr amser y byddai'n ei gymryd, a fyddent yn deall yr iaith a'r camau fyddai'n rhan o hynny, a'r amgyffrediad o 'drafferth' y weithdrefn. Roedd pryderon hefyd y gallai fod rhwystrau neilltuol i'r rhai ag anawsterau dysgu, problemau iechyd meddwl, a'r Saesneg yn ail iaith. Yn gyffredinol daeth y panel ieuenctid i'r casgliad y dylid gwneud mwy i wneud y system gwynion yn fwy **cynhwysol, hygyrch a gweladwy** i unigolion ar draws y boblogaeth o bobl ifanc.

Gwnaeth y panel ieuenctid nifer o argymhellion i'r IOPC, yn ymwneud â chyfathrebu a chyfryngau cymdeithasol, ymgysylltiad cymunedol, ac amrywiaeth a phobl, yr ydym wedi ymrwymo i ymdrin â nhw. Eleni mae'r panel wedi creu 'canllaw cyflym' i'r system gwynion, ein cynghori am effaith achos stopio a chwilio amlwg ar bobl ifanc, wedi rhoi cymorth wrth recriwtio pobl i rolau allweddol sy'n wynebu'r cyhoedd, a chyd-olygu'r rhifyn hwn o Ddysgu'r Gwersi! Mae eu her a'u cyngor i ni ar y prosiectau hyn a nifer o rai eraill wedi bod yn werthfawr ac rydym yn edrych ymlaen at weithio yn agos gyda nhw yn 2020.

---



Lizzy Jones yw'r Uwch Reolwr Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn yr IOPC.



Mae Tom Jones yn Swyddog Ymgysylltu â Rhanddeiliaid i'r IOPC ac yn arwain ar waith y panel ieuenctid. Mae gan Tom dros 10 mlynedd o brofiad mewn gwaith ieuenctid a chymunedol, gan weithio gyda rhai o'r cymunedau sydd dan fwyaf o anfantais yn y wlad.

**Ddwy flynedd ymlaen: Dwyn llais pobl ifanc i waith yr IOPC**

Aelodau panel ieuenctid yr IOPC yn siarad â Chyfarwyddwr Cyffredinol yr IOPC Michael Lockwood ddwy flynedd ers lansio panel ieuenctid yr IOPC. Maent yn cael gwybod sut y mae aelodau'r panel yn dylanwadu ar waith yr IOPC.

---



Daeth **Michael Lockwood** yn Gyfarwyddwr Cyffredinol cyntaf yr IOPC pan lansiwyd y sefydliad yn Ionawr 2018. Cyn hynny roedd Michael yn Brif Weithredwr Bwrdeistref Llundain, Harrow.

Yn dilyn y tân yn Nhŵr Grenfell ym Mehefin 2017, gofynnodd Tasglu'r Llywodraeth i Michael arwain ar y gwaith adfer ac ymadfer, yn ogystal â bod yn brif gyswllt gyda'r teuluoedd mewn profedigaeth, goroeswyr a'r gymuned ehangach.

---

**Pa effaith y mae'r panel ieuenctid wedi ei gael ar yr IOPC?**

Un anferth! Mae'r panel ieuenctid wedi bod yn rhedeg ers Ionawr 2018. Mae wedi cael effaith gwirioneddol wych ar ein gwaith ar draws nifer o feysydd. Rhoddodd yr adroddiad a gynhyrchwyd ganddynt, yn dilyn sgyrsiau gyda mwy nag 800 o bobl ifanc eraill, gyngor clir i ni am yr hyn y mae pobl ifanc yn ei feddwl o system gwynion yr heddlu a'r hyn y maen nhw'n ei ystyried sydd yn mynd o'r ffordd.

Ar lefel fwy ymarferol, fe wnaeth y panel ein helpu mewn nifer o feysydd, fel sut y gallwn ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn well i ymgysylltu â phobl ifanc, a'r prosesau recriwtio ar gyfer aelodau allweddol o'r staff. Fe wnaeth brwdfrydedd, parodrwydd i weithio ac ymrwymiad i helpu i wneud gwahaniaeth y panel ieuenctid argraff fawr ar ein holl staff fu'n gweithio gyda nhw.

**Pa rai o'r themâu a drafodir yn adroddiad y panel ieuenctid oeddech chi'n eu gweld yn rymus neu'n ddiddorol, a pham?**

Yr hyn wnaeth fy nharo i yn arbennig oedd disgrifiad y panel o deimlo yn ddi-rym yn wyneb awdurdod. Ni all fod yn iawn i bobl ifanc deimlo nad yw'r rhai sydd â grym yn gwrando arnynt, dim ond oherwydd eu hoedran. Mae hwn yn faes yr wyf yn awyddus iawn i ymdrin ag o yng nghyswllt system gwynion yr heddlu – rwyf am i'r bobl ifanc i gyd gredu, os oes ganddynt bryderon am y ffordd y maent wedi cael eu trin gan yr heddlu, y gallant godi'r materion hyn a bod yn ffyddiog y byddant yn cael eu trin mewn ffordd deg a thryloyw. Rwy'n obeithiol y bydd ein gwaith gyda'r panel ieuenctid, ac yn fwy eang, yn ein helpu i wella'r mynediad at y system i bobl ifanc a'u cred ynddi.

**Beth mae'r IOPC yn ei wneud i adeiladu ar y gwaith ymgysylltu gyda phobl ifanc y mae'r panel ieuenctid wedi ei ddechrau cyn lansio ei hadroddiad?**

Rydym yn cadw'r adborth ymarferol iawn a gynigiwyd i ni ers iddynt ddechrau gweithio gyda ni mewn cof. Rydym yn edrych ar sut yr ydym yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol, y wybodaeth sydd ar gael ar ein gwefan, a sut y mae'r rhain yn cael eu gweld gan bobl ifanc.

Un o'r syniadau gan y panel oedd cynhyrchu canllaw i'r system gwynion i bobl ifanc i'w gwneud yn haws ei deall a chael mynediad iddi. Mae hyn yn rhywbeth y mae'r panel wedi ein helpu i'w ddatblygu dros y misoedd diwethaf.

Rydym hefyd yn edrych ar ffyrdd o ymgysylltu â phobl ifanc ar faterion sydd yn bwysig iddyn nhw. Er enghraifft, cynhaliwyd ychydig o ddigwyddiadau yn canolbwyntio ar stopio a chwilio. Rhannodd y rhai sydd wedi cael profiad personol o gael eu stopio eu hadborth â ni.

Fe'm trawyd hefyd gan y rhestr wirio syml i swyddogion heddlu, a gynigiwyd gan aelodau'r panel ieuenctid, i'w defnyddio yn ystod stopio a chwilio/stopio ac adrodd (y gallwch ei gweld yn rhifyn 33 o Dysgu'r Gwersi, yn canolbwyntio ar stopio a chwilio). Gallai dilyn cyfarwyddyd syml fel hyn ddechrau cael effaith gwirioneddol ar y ffordd y mae'r heddlu yn cael eu hamgyffred gan bobl ifanc. Dim ond ar gychwyn y daith ydym ni ond byddwn yn parhau i weithio'n galed yn y maes pwysig hwn. Rwy'n awyddus iawn i ni wneud gwelliannau gwych yma.

**Beth mae'r IOPC yn ei wneud i wella presenoldeb a chynrychiolaeth pobl ifanc ymhlith ei staff?**

Rwy'n falch o ddweud ein bod yn gwneud cryn lawer yn barod. Rydym yn cynnig prentisiaethau o fewn yr IOPC, ac er y gall pobl o bob oed gymryd y rhain, maent yn rhoi cyfle i bobl ifanc gydag ychydig o brofiad ymuno â ni mewn amrywiaeth o adrannau fel adnoddau dynol, gweithrediadau, cyfreithiol a TGCh.

Yn ystod haf 2020 byddwn yn cynnig y cyfle i bobl ddilyn interniaethau gyda ni. Bydd hyn yn ffordd wych arall i bobl ifanc gael profiad yn y gweithle, tra byddant yn ennill arian.

Rydym hefyd newydd orffen cyfres o ddyddiau blasu i fyfyrwyr prifysgol mewn llond llaw o brifysgolion o gwmpas y wlad.  Roeddem yn sôn am ein sefydliad a sut y gallai gyrfa gyda ni edrych. Fe wnaethom hefyd gynnig rhai awgrymiadau o ran sut i lwyddo mewn cyfweliad.

**Achos 5 – Pryder am les plant dan oed**

Ffoniodd dyn yr heddlu i roi adroddiad am ei bryderon am ei ferch 17 mlwydd oed a'i man gwaith. Yn benodol, y bobl oedd yn gweithio yno a'r "hyn ddwedwyd wrtho oedd yn mynd ymlaen uwch ben y siop gludfwyd". Dywedodd wrth yr un oedd yn ymdrin â'r alwad bod ei ferch yn fregus gan fod ganddi anawsterau dysgu, ei bod wedi symud o gartref ei mam, wedi gadael ei chwrs coleg, a dechrau cymysgu â chriw gwahanol. Dywedodd wrth yr un oedd yn ymdrin â'r alwad nad oedd y teulu yn gwybod ble'r oedd ei ferch yn byw ac nad oedd wedi cael ei gweld yn ei man gwaith.

Roedd yr un oedd yn ymdrin â'r alwad wedi cael hyfforddiant mewn asesiadau risg THRIVE a bregrusrwydd.

Cyfeiriodd y dyn at yr achosion o wastrodi a cham-fanteisio rhywiol ar blant yn Rotherham, Rochdale a Rhydychen yn ystod yr alwad.

Dywedodd y dyn wrth yr un oedd yn ymdrin â'r alwad "wyddoch chi os rhowch chi bopeth gyda'i gilydd". Atebodd yr un oedd yn ymdrin â'r alwad "Rwy'n gwybod at beth yr ydych yn cyfeirio, yr arwyddion sy'n rhoi rhybudd."

**Arfer Proffesiynol a Ganiateir (APP) y Coleg Plismona – ymateb yr heddlu i bryder am blentyn**

Mae ymchwiliad yn dechrau gydag adroddiad o gam-drin plant. Dylai swyddogion a staff yr heddlu sefydlu cymaint o fanylion ag sy'n bosibl i gefnogi ymchwiliad trylwyr. Efallai na fydd dioddefwr neu dyst sy'n rhoi adroddiad am gam-drin plant yn ei ddynodi fel hynny. Mae angen i swyddogion a staff yr heddlu ofyn cwestiynau perthnasol a dynodi adroddiadau am gam-drin plant yn glir.

**Dysgwch ragor yn:** https://www.app.college.police.uk/app-content/major-investigation-and-public-protection/child-abuse/concern-for-a-child/#information-for-an-initial-report

Dywedodd yr un oedd yn ymdrin â'r alwad y byddai yn cynnal gwiriadau cudd-wybodaeth am unrhyw ddiddordeb gan yr heddlu ym man gwaith ei ferch, a hefyd gwirio a oedd ei ferch wedi dod i ofal yr heddlu neu ar systemau'r heddlu.

Cysylltodd yr un oedd yn ymdrin â'r alwad â'i goruchwyliwr. Dywedodd ei goruchwyliwr wrth yr IOPC bod yr un oedd wedi ymdrin â'r alwad wedi dweud wrtho bod y dyn yn bryderus bod ei ferch yn gweithio oriau hir yn y siop cludfwyd. Cadarnhaodd yr un oedd wedi ymdrin â'r alwad bod gwiriadau cudd-wybodaeth wedi cael eu cynnal ar y ferch a'i gweithle heb unrhyw ganlyniadau. Dywedodd y goruchwyliwr wrth yr IOPC ei fod wedi rhoi cyfarwyddyd i'r un oedd wedi ymdrin â'r alwad i beidio â chreu cofnod digwyddiad gan ei fod yn credu nad oedd angen unrhyw weithredu gan yr heddlu.

Yn ddiweddarach cydnabu'r goruchwyliwr, ar ôl gweld adysgrif o'r alwad, petai yn gwybod am anawsterau dysgu'r ferch a'r pryder clir a fynegwyd gan y dyn, y byddai wedi argymell camau gweithredu gwahanol, gan gynnwys anfon yr heddlu yno.

Dywedodd yr un oedd yn ymdrin â'r alwad na fyddai'r heddlu yn gweithredu ac argymell y dylai'r dyn fynd i fan gwaith ei ferch ei hun.

Dywedodd yr un wnaeth ymdrin â'r alwad wrth yr IOPC, wrth edrych yn ôl, ei bod yn credu y dylai fod wedi cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol i gael gwybod ble'r oedd y ferch yn byw. Dywedodd ei bod yn credu nad oedd unrhyw bolisi ar gyfrifoldebau gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu os oes pryder am les person ifanc.

Ni chymerodd yr un wnaeth ymdrin â'r alwad unrhyw gamau pellach.

Tua mis yn ddiweddarach, ffoniodd y dyn yr heddlu eto. Dywedodd bod rhywun wedi dweud wrtho bod ei ferch wedi cael ei threisio gan rywun yn ei gwaith.

**Cwestiynau allweddol i lunwyr polisïau/rheolwyr:**

- Beth mae polisi eich llu heddlu yn ei ddweud am weithio gyda gwasanaethau cymdeithasol pan fydd pryder am les plentyn dan oed yn cael ei ganfod?
- Sut fyddwch chi'n sicrhau bod y rhai sy'n ymdrin â galwadau yn gofyn y cwestiynau cywir i ddynodi pan all risg o gam-drin plant godi?
- Sut mae eich llu heddlu yn sicrhau bod gwybodaeth o'r galwadau cychwynnol yn cael ei throsglwyddo yn gywir i oruchwylwyr?

**Cwestiynau allweddol i swyddogion heddlu/staff:**

- Petaech chi yn ymdrin â'r alwad, pa gwestiynau eraill fyddech chi wedi eu gofyn i gasglu rhagor o wybodaeth am y risg i ferch y dyn a/neu ble'r oedd hi?
- Pa gamau eraill allai'r un oedd yn ymdrin â'r alwad fod wedi eu cymryd i sefydlu'r risg yr oedd merch y dyn yn ei hwynebu?
- A fyddech wedi gwneud rhywbeth yn wahanol wrth ymateb i'r digwyddiad hwn, o wybod am iechyd meddwl y person ifanc neu ei anawsterau dysgu?

**Deilliannau i'r swyddogion/staff oedd yn rhan o'r digwyddiad:**

- Canfuwyd nad oedd gan yr un oedd wedi ymdrin â'r alwad achos i'w ateb am gamymddygiad o ran yr honiad nad oedd hi wedi ystyried pryderon y dyn am ei ferch. Argymhellodd yr IOPC y gallai'r un oedd wedi ymdrin â'r alwad gael budd o gyfarwyddyd rheoli anffurfiol i fod yn fwy ymwybodol o risg a bregusrwydd yn y dyfodol a sicrhau ei bod yn mynegi pryderon wrth ei goruchwylwyr yn fanwl.

**Achos 6 – Cyswllt rhwng plentyn dan oed a throseddwr rhyw cofrestredig**

Ffoniodd dyn 16 oed 999 i gofnodi ei fod yn cael ei flacmelio yn emosiynol am ryw.

Atebwyd yr alwad gan gwnstabl heddlu oedd wedi gweithio fel danfonwr/dyrannwr adnoddau (RAD) yn ystafell reoli'r llu heddlu.

Cofnododd y swyddog nad oedd y dyn ifanc yn gwybod pwy oedd y troseddwr, a'i fod wedi derbyn negeseuon testun a galwad ffôn gan y troseddwr.

Roedd gan y swyddog brofiad o weithio mewn swyddogaeth ymateb, ond nid oedd yn cymryd galwadau 999 amser llawn ac nid oedd wedi cael unrhyw hyfforddiant wrth ymdrin â galwadau 999 er ei fod yn cyflawni'r rôl hon yn gyson.

Roedd rôl y swyddog yn bennaf ar y ddesg wasanaeth yn ymdrin â gwiriadau i swyddogion eraill. Ond, roedd y rôl wedi esblygu i gynnwys cymryd galwadau 999.

Cynghorodd y swyddog y dyn ifanc i gysylltu â'i ddarparwr rhwydwaith i atal y rhif oedd yn cysylltu ag ef. Cynghorodd y swyddog y dyn ifanc y byddai'n gwneud ymholiadau am y rhif ffôn oedd yn cysylltu ag ef. Rhoddodd y swyddog gofnod yn y log digwyddiadau gan grynhoi'r sgwrs yr oedd wedi ei chael. Cofnododd asesiad risg oedd yn nodi nad oedd yn credu bod risg yn rhan o'r achos, ac nid oedd unrhyw fregrusrwydd wedi ei ddatgelu.

Roedd cofnodion blaenorol ar systemau'r llu heddlu yn dangos bod gan y dyn awtistiaeth lefel isel ac anawsterau dysgu. Ni wnaeth y swyddog a gymerodd yr alwad wirio systemau'r llu, ac felly nid oedd yn gwybod am awtistiaeth ac anawsterau dysgu'r dyn ifanc. Ni wnaeth y swyddog chwaith ofyn am ddyddiad geni'r dyn ifanc ac felly nid oedd yn gwybod mai plentyn oedd ef. Derbyniodd y swyddog y byddai fel arfer yn gofyn am ddyddiad geni rhywun fyddai'n galw.

Roedd y swyddog a gymerodd yr alwad wedi cael hyfforddiant diogelu rhwng pump a deng mlynedd cyn hynny. Dywedodd y llu heddlu wrth yr IOPC nad oedd ganddynt unrhyw bolisi neu gyfarwyddyd ar ba mor aml y dylai swyddogion ddilyn hyfforddiant ar ddiogelu, ac eithrio swyddogion mewn rolau arbenigol.

Ni wnaeth y swyddog a gymerodd yr alwad unrhyw wiriadau cudd-wybodaeth ar y rhif ffôn oedd wedi anfon y negeseuon testun, er ei fod wedi dweud wrth y dyn ifanc y byddai'n gwneud hynny. Dywedodd wrth yr IOPC na wnaeth hyn oherwydd nad oedd yn gweld unrhyw reswm dros ddilyn y galwad ymhellach.

**Arfer Proffesiynol a Ganiateir (APP) y Coleg Plismona – gwiriadau gwybodaeth a chudd-wybodaeth**

Mae gwiriadau gwybodaeth a chudd-wybodaeth o'r holl gronfeydd data sydd ar gael yn allweddol i ymchwiliadau effeithiol a diogelu plant. Dylai'r gwiriadau hyn fod yn berthnasol i'r holl unigolion sy'n berthnasol i ymchwiliad. Dylai'r wybodaeth a gesglir gael ei chofnodi. Mae troseddau treisgar neu rywiol a gyflawnir yn erbyn dioddefwyr o unrhyw oedran gan rhywun dan amheuaeth o gam-drin plant yn berthnasol, yn ogystal ag unrhyw droseddau eraill a all gael dylanwad ar asesu risg. Bydd gwybodaeth am amgylchiadau pob trosedd yn cynorthwyo wrth bennu maint y risg sy'n bodoli.
Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau a'r hyn sy'n gymesur yn y sefyllfa, dylai gwiriadau gynnwys y cronfeydd data neu systemau canlynol:

- System Blant Integredig, Contact Point ac unrhyw systemau lleol ar gyfer cael mynediad at wybodaeth am blant sy'n destun cynlluniau diogelu plant
- PNC

- ViSOR
- PND
- cronfa ddata ymchwilio i gam-drin plant (neu gronfa ddata gyfatebol ar gyfer cofnodi pryderon am blant)
- cronfeydd data lleol
- Mynegai Unigolion Ar Goll
- Mynegai Troseddwyr Ifanc
- systemau cudd-wybodaeth y llu
- cofnodion ystafell reoli'r llu am unrhyw ddigwyddiadau cysylltiedig sy'n digwydd mewn ardal benodol ac mewn cyfeiriad perthnasol
- cofnodion troseddau a digwyddiadau eraill yng nghyswllt cyfeiriadau ac unigolion perthnasol
- Chwiliadau System Olrhain Cam-fanteisio ar Blant CEOP yn ymwneud â chyfeiriadau e-bost, enwau defnyddwyr a gwybodaeth gysylltiedig berthnasol
- Childbase
- Ewropeaidd a rhyngwladol.

**Dysgwch ragor:** https://www.app.college.police.uk/app-content/major-investigation-and-public-protection/child-abuse/police-response/information-management/#information-and-intelligence-checks

Tua thair wythnos yn ddiweddarach gwnaeth y dyn ifanc ail alwad 999 a siarad â rhywun gwahanol. Rhoddodd adroddiad bod dyn yn ei flacmelio am ryw a dywedodd ei fod wedi trefnu i gyfarfod y dyn y diwrnod canlynol. Gofynnodd a allai'r heddlu fynd gydag ef i arestio'r dyn. Yn ystod yr alwad datgelodd ei fod wedi cael perthynas rywiol â'r dyn a bod y dyn yn bygwth dweud wrth ei fam. Rhoddodd rif ffôn - sef yr un rhif ag a roddwyd i'r swyddog a gymerodd yr alwad wreiddiol dair wythnos cyn hynny.

Cynhaliodd yr un wnaeth ymdrin â'r ail alwad wiriadau cudd-wybodaeth am y dyn ifanc a chofnodi ar y log digwyddiadau bod ganddo awtistiaeth lefel isel, a'i fod yn amlwg yn fregus ac yn gyndyn o roi unrhyw wybodaeth. Dangosodd gwiriadau pellach ar y rhif ffôn y posibilrwydd bod y troseddwr yn hysbys.

Cofnododd yr un wnaeth ymdrin â'r alwad bod yr un dan amheuaeth yn droseddwr rhyw cofrestredig oedd yn torri ei orchymyn atal troseddwyr rhyw (SOPO). Nid oedd ganddo hawl cael mynediad i'r rhyngrwyd na chyswllt heb ei oruchwylio ag unrhyw un 16 oed neu iau. Byddai'r wybodaeth hon wedi cael ei datgelu ynghynt petai gwiriadau cudd-wybodaeth wedi cael eu cynnal yn dilyn yr alwad wreiddiol.

**Cwestiynau allweddol i lunwyr polisïau/rheolwyr:**

- Sut mae eich llu heddlu yn sicrhau bod yr holl swyddogion a staff sy'n ymdrin â galwadau 999 yn cael eu hyfforddi i wneud hynny?
- Pa bolisi neu gyfarwyddyd sydd gan eich llu heddlu am ba mor aml y dylai swyddogion a staff ddilyn hyfforddiant diogelu?
- Pa gyfarwyddyd sydd gan eich llu heddlu am y cwestiynau y dylid eu gofyn wrth ymdrin â galwad 999?
- Sut fyddwch chi'n sicrhau bod gwiriadau cudd-wybodaeth digonol yn cael eu cynnal fel rhan o ddigwyddiadau cam-drin plant posibl?

**Cwestiynau allweddol i swyddogion heddlu/staff:**

- Pa gwestiynau eraill fyddech chi wedi eu gofyn petaech wedi cymryd yr alwad 999 gychwynnol?
- Pa gamau eraill fyddech chi wedi eu cymryd petaech wedi cael eich wynebu â'r digwyddiad hwn?

**Camau a gymerwyd gan y llu heddlu hwn:**

- Gweithredodd y llu heddlu hyfforddiant gorfodol i sicrhau bod swyddogion a staff oedd yn gweithio mewn canolfannau cyswllt yn hyderus wrth gymryd galwadau 999 a danfon adnoddau.
- Derbyniodd y swyddogion a staff hyfforddiant ar y model asesu risg THRIVE+.

**Deilliannau i'r swyddogion/staff oedd yn rhan o'r digwyddiad:**

- Canfuwyd bod gan y swyddog heddlu a gymerodd yr alwad gyntaf achos i'w ateb am gamymddygiad. Roedd hyn am beidio â chynnal gwiriadau system a gofyn cwestiynau i alluogi i asesiad risg llawn gael ei gynnal. Bu'r swyddog mewn cyfarfod camymddygiad, derbyniodd gyngor rheoli, a gwnaed hi'n ofynnol iddo ddilyn hyfforddiant unigol.

**Awgrymiadau i swyddogion**

Mae'r panel ieuenctid wedi datblygu awgrymiadau i swyddogion yn ymdrin â nifer o sefyllfaoedd posibl lle gall swyddogion gael cyswllt â phobl ifanc. Mae hyn yn dilyn adborth cadarnhaol ar yr awgrymiadau stopio a chwilio a ddatblygwyd gan aelodau'r panel ieuenctid ar gyfer rhifyn 33.

---

**Awgrymiadau ar gyfer adegau pan fyddwch yn dod i gysylltiad â phobl ifanc**

- Cofiwch fy mod yn ifanc – efallai mai dyma fy nghyswllt cyntaf â'r heddlu, efallai nad wyf yn gwybod fy hawliau, efallai bod arnaf ofn, ac efallai na fyddaf yn ymateb yn yr un ffordd ag y byddai oedolyn yn yr un sefyllfa.
- Peidiwch â thybio fy oedran ar sail y ffordd yr wyf yn edrych – fe allwn fod yn iau nag yr ydych yn meddwl. Gofynnwch i mi os nad ydych yn siŵr.
- Siaradwch â mi mewn ffordd y gallaf ddeall beth yr ydych yn ei ddweud – peidiwch â chymryd fy mod yn siarad Saesneg yn rhugl. Defnyddiwch Saesneg clir, ond peidiwch ag edrych i lawr arnaf.
- Peidiwch â chymryd eich bod yn deall – ceisiwch weld y darlun cyfan, deallwch fy safbwynt, sut yr wyf yn teimlo, a beth sydd arnaf ei angen. Ceisiwch beidio â llunio rhagdybiaethau am fy rhan mewn rhywbeth nes byddwch wedi cael tystiolaeth.
- Cyfeiriwch fi at gefnogaeth a all fod ar gael i mi – boed hynny'n oedolyn priodol, neu gefnogaeth gan asiantaeth neu sefydliad arall.
- Gwnewch yn siŵr fy mod yn ddiogel – os byddwch yn meddwl fy mod yn fregus neu mewn perygl o gael niwed, gofynnwch i mi os oes arnaf angen rhywbeth, neu a oes rhywbeth y gallwch ei wneud i helpu.
- Ystyriwch eich cyswllt â phobl ifanc – meddyliwch a oes unrhyw beth y gallech ei wneud yn wahanol y tro nesaf y byddwch yn yr un sefyllfa.

---

**Os byddwch yn meddwl eich bod wedi fy ngweld neu wedi ymdrin â mi o'r blaen**

- Peidiwch â rhagdybio'r gwaethaf – cadwch feddwl agored. Efallai na fyddaf wedi gwneud dim byd o'i le.
- Peidiwch â llunio barn amdanaf ar sail y rhai yr wyf yn gysylltiedig â nhw – fe fydd pobl yn fy nheulu, pobl yr wyf wedi fy magu hefo nhw, neu bobl yn fy nghymdogaeth sydd yn ymwneud â phethau nad wyf fi'n rhan ohonyn nhw neu nad wyf yn cytuno â nhw.

---

**Os wyf fi'n ddioddefwr trosedd**

- Gwrandwch a'm cymryd o ddifri.
- Ceisiwch gydnabod y dewrder y mae wedi ei gymryd i mi ddweud wrthych am yr hyn sydd wedi digwydd – ceisiwch osgoi codi cywilydd arnaf a'm beio i.
- Cadwch feddwl agored – peidiwch â defnyddio fy ngorffennol i'm beirniadu.

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi digon o wybodaeth i mi – rhowch wybod i mi beth i’w ddisgwyl o’r broses, a rhoi gwybod i mi am unrhyw gynnydd.

---

**Os byddaf mewn argyfwng**

- Gofalwch fy nhrin yn dawel a sensitif – sylweddolwch y gallai fod arnaf ofn, fy mod mewn gofid neu yn flin.
- Gwnewch yn siŵr fy mod yn ddiogel – helpwch fi i gael y gefnogaeth y mae arnaf ei hangen, a chanolbwyntio ar y datrysiad.
- Esboniwch beth sy’n digwydd – dywedwch wrthyf beth yw fy newisiadau, beth sy’n mynd i ddigwydd nesaf, a pha gefnogaeth sydd ar gael i mi.

---

**Os ydych yn fy stopio a’m chwilio neu yn defnyddio stopio ac adrodd**

- Ystyriwch ble yr ydych yn fy stopio – peidiwch â chodi cywilydd arnaf o flaen ffrindiau, teulu neu gydweithwyr.
- Dywedwch wrthyf pam eich bod yn fy stopio – defnyddiwch GOWISELY a gwirio fy mod yn deall beth yr ydych wedi ei ddweud wrthyf.
- Dywedwch a ydych yn cofnodi’r stopio ar fideo ar y corff.
- Dangoswch barch i mi – peidiwch ag edrych i lawr arnaf na bod yn ymosodol.
- Rhowch gofnod o’r stopio i mi neu dywedwch wrthyf ble y gallaf ei gael.
- Gadewch i mi wybod sut y gallaf roi adborth – dywedwch wrthyf sut y gallaf gyflwyno cwyn neu roi adborth os gallwch weld fy mod yn anfodlon.
- Ymddiheurwch os na fyddwch yn dod o hyd i unrhyw beth.

Roedd yr awgrymiadau am stopio a chwilio yn rhan o erthygl a ddatblygwyd gan y panel ieuenctid. Ymddangosodd y tro cyntaf yn Dysgu’r Gwersi 33 (stopio a chwilio). Cyhoeddwyd y rhifyn hwnnw ym mis Tachwedd 2018.

---

**Os byddwch yn dod i’m cartref i ymdrin â mater sy’n ymwneud â rhywun arall**

- Cofiwch eich bod yn dod i mewn i gartref rhywun a gofod personol rhywun – efallai na fydd pobl yn croesawu eich presenoldeb bob amser, fe all beri gofid, pryder neu wneud rhai pobl yn flin.
- Meddyliwch sut yr ydych yn ymdrin â’r bobl sy’n bresennol – byddwch yn dawel, esboniwch beth sy’n digwydd, dangoswch barch, a meddyliwch sut y mae’n effeithio ar bobl eraill nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â’r digwyddiad.
- Ceisiwch osgoi llunio rhagdybiaethau – peidiwch â chymryd bod pawb yn y tŷ yn droseddwr neu yn ymwneud â’r hyn sydd wedi digwydd.

---

**Os eir â fi i'r ddalfa gan yr heddlu**

- Ystyriwch ai'r ddalfa yw'r lle cywir i mi – ceisiwch gadw fy amser yn y ddalfa cyn fyrred â phosibl.
- Gwnewch yn siŵr bod gennyf gefnogaeth briodol – rhowch fynediad i mi at oedolyn priodol neu unrhyw gefnogaeth arall y gall fod arnaf ei hangen.
- Esboniwch beth yw fy newisiadau – dywedwch wrthyf pryd y gallaf alw fy rhieni neu ofalwyr.
- Esboniwch fy hawliau – cofiwch y gall hwn fod y tro cyntaf i mi fod yn y ddalfa.
- Esboniwch sut y gallaf gysylltu â chi pan fyddaf yn y gell, pryd y byddaf yn cael bwyd a diod, pryd y byddwch yn cadw golwg arnaf, sut y gallaf gael ymolchi neu ddeunyddiau misglwyf, a beth i'w wneud os na fyddaf yn teimlo'n dda.
- Peidiwch â bod ofn gofyn i mi sut yr wyf yn teimlo – efallai na fyddaf yn dawel a chwrtais bob amser ond fe all helpu os byddwch yn dynodi a wyf yn fregus, mewn gofid, neu yn cael trafferth ymdopi â'm hamser yn y ddalfa.
- Os oes sŵn ac ymyrraeth yn rhywle arall yn y ddalfa, gwiriwch sut y mae wedi effeithio arnaf fi pan fydd yn ddiogel a phriodol gwneud hynny.

---

**Os byddaf am gyflwyno cwyn neu roi adborth am fy nghyswllt â'r heddlu**

- Gwnewch yn siŵr bod gwybodaeth am sut y gallaf gwyno neu roi adborth yn hawdd ei chael – gall hyn gynnwys bod yn weladwy ar ffurflenni stopio a chwilio, yn y ddalfa, yn swyddfeydd blaen swyddfeydd heddlu, ar wefannau lluoedd heddlu, neu fannau eraill lle gallaf ddod o hyd i wybodaeth (yn lleol neu ar-lein).
- Rhowch wybod i mi pwy arall all roi cefnogaeth a chyngor i mi ar sut i gyflwyno cwyn – cyfeiriwch at yr IOPC ac unrhyw sefydliadau sy'n gweithio'n lleol a all fy helpu i gyflwyno cwyn.
- Cadwch mewn cysylltiad â mi os byddaf yn cyflwyno cwyn – gadewch i mi wybod eich bod wedi ei derbyn, beth yw'r camau nesaf, rhowch wybod i mi am unrhyw gynnydd, a rhowch wybod a oes gennyf yr hawl i apelio ar ddiwedd y broses.
- Byddwch yn realistig am y deilliannau posibl – dywedwch wrthyf beth yr ydych yn ei feddwl sy'n debygol o ddigwydd nesaf.

---

**Os ydych am fy nghynnwys yn y gwaith o oruchwylio a chraffu ar arferion yr heddlu**

- Helpwch fi i gymryd rhan go iawn – rhowch gefnogaeth a hyfforddiant addas i mi, a meddwl sut y gallwch gael gwared ar y rhwystrau a all fy atal rhag cymryd rhan lawn.
- Parchwch fi, fy syniadau, a'm profiad – peidiwch â bod yn nawddoglyd neu edrych i lawr arnaf. Cydnabyddwch y gallaf fod wedi profi pethau nad ydych chi, ac nad ydych yn gwybod amdanynt.
- Byddwch yn gynhwysol – ceisiwch gynnwys amrywiaeth eang o bobl ifanc. Peidiwch â dim ond targedu'r gwirfoddolwyr amlwg, ond edrychwch sut y gall pobl ifanc gael gwared ar y rhwystrau sy'n atal pobl ifanc rhag cymryd rhan.
- Cynhwyswch bobl ifanc wrth ddylunio a chyflwyno prosiectau – gofynnwch i ni sut yr ydym am gyfrannu, sut y mae rhywbeth da yn edrych i ni, a meddyliwch sut y gallwn gael budd o gyfrannu.

- Byddwch yn realistig am yr effaith y gallwn ei gael – helpwch ni i ddeall sut y gallwn wneud gwahaniaeth, a bod yn realistig am y cyfyngiadau.

**Achos 7 – Fideo A Wisgir Ar Y Corff wedi ei ddileu ar ôl chwilio rhywun 17 oed**

Galwodd menyw yr heddlu am tua 7.40pm i roi adroddiad am faterion amrywiol, gan gynnwys ymddygiad ffrindiau ei mab. Roeddent yn 17 oed ac roedd hi'n credu bod cyffuriau yn cael eu cymryd yn ei thŷ. Tua awr yn ddiweddarach, galwodd y fenyw yr heddlu eto i roi adroddiad bod rhywun wedi ymosod ar ei merch.

Ychydig oriau yn ddiweddarach, cyrhaeddodd dau swyddog heddlu dŷ'r fenyw. Roedd un o'r swyddogion yn gwnstabl fyfyriwr gydag ychydig wythnosau o brofiad. Roedd y swyddog hwn dan oruchwyliaeth uniongyrchol y swyddog arall, oedd yn gwnstabl diwtor. Yn fuan ar ôl cyrraedd, chwiliodd y swyddogion un o'r dynion ifanc yn y tŷ dan Adran 23 o'r *Ddeddf Cam-ddefnyddio Cyffuriau.* Nododd un o'r swyddogion bod cyllell ar y llawr rhwng y dyn ifanc a'r swyddogion.

Dywedodd y dyn ifanc a gafodd ei chwilio wrth yr IOPC na wnaeth y swyddogion ddweud o ba swyddfa heddlu yr oeddent cyn cynnal y chwiliad. Cofnododd y swyddog a wnaeth chwilio yn ei ffurflen adborth ddyddiol ei fod wedi mynd trwy'r broses 'GO WISELY' gyda'r dyn ifanc cyn ei chwilio. Ond, nid oedd cofnod ar y cofnod chwilio i ddangos bod GO WISELY wedi ei roi.

**Arfer Proffesiynol a Ganiateir (APP) y Coleg Plismona – stopio a chwilio**

**GO WISELY**

**G** - Esboniad clir o sail (**grounds**) yr amheuaeth, ee, gwybodaeth/cudd-wybodaeth neu ymddygiad penodol gan yr unigolyn

**O** - Esboniad clir o amcan a diben **(object)** y chwilio o ran yr eitem yr oedd yn chwilio amdano

**W -** Cerdyn **Warant**, os na fydd mewn iwnifform neu os gofynnir am hynny

**I -** Pwy yw'r swyddog(ion) **(Identity)**: enw a rhif neu, mewn achosion yn ymwneud â therfysgaeth neu pan fydd risg benodol i'r swyddog, cerdyn warant neu rif coler

**S -** Y swyddfa **(station)** y mae'n gysylltiedig â hi

**E -** Hawl **(entitlement)** i gopi o'r cofnod chwilio cyn pen tri mis

**L -** y grym cyfreithiol **(legal)** a ddefnyddiwyd

**Y -** Rydych chi'n **(you)** cael eich atal ar gyfer eich chwilio

Os bydd yr unigolyn yn deall y rhesymau am weithredoedd y swyddog, mae'n fwy tebygol o'i dderbyn a pheidio ei weld fel rhywbeth heb sail neu annheg. Er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn deall cymaint â phosibl cyn dechrau chwilio, rhaid i swyddogion sy'n arfer pwerau stopio a chwilio fabwysiadu'r camau canlynol yn unol â GOWISELY:

- dweud pwy ydyn nhw wrth yr unigolyn
- dangos ei gerdyn warant os nad yw mewn iwnifform
- dynodi o ba swyddfa heddlu y mae
- ddweud wrth yr unigolyn ei fod yn cael ei gadw i'w chwilio
- esbonio sail y chwilio (neu'r awdurdod yn achos chwiliadau adran 60)

- esbonio diben y chwilio
- nodi pa rym cyfreithiol y mae'n ei ddefnyddio
- hysbysu'r unigolyn bod ganddo hawl i gopi o'r cofnod o'r chwilio ac esbonio sut y gellir cael hwn

**Dysgwch ragor:** https://www.app.college.police.uk/app-content/stop-and-search/professional/

Cydiodd y ddau swyddog yn y dyn ifanc. Daliodd un o'r swyddogion ef ar y gwely a rhoi cyffion arno, tra tarodd y swyddog arall ef ar ei gefn i dynnu ei sylw. Ar ôl iddo ei daro ar ei gefn, gofynnwyd i'r swyddog pam ei fod wedi gwneud hynny. Atebodd "because you're acting like a f*****g dickhead". Honnodd y swyddog ei fod wedi taro'r dyn ifanc yn agos at ei balfais gan fod taro i dynnu sylw i fod i rewi rhai grwpiau o gyhyrau. Archwiliodd nyrs y dyn ifanc wyth diwrnod ar ôl y digwyddiad gan ddod o hyd i gleisiau ar ardal ei lwyn de, yn agos i'r fan lle mae'r arennau. Ni wnaeth yr un o'r swyddogion lenwi ffurflen defnyddio grym. Cydnabu'r swyddog a wnaeth daro'r dyn ifanc yn ei gefn ei fod wedi cynghori'r swyddog arall i beidio â llenwi ffurflen defnyddio grym. Fe wnaeth hynny oherwydd nad oedd y grym a ddefnyddiodd yn ei gwneud yn ofynnol i wneud hynny.

**Ffurflen fonitro defnyddio grym Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC): cyfarwyddyd (2017)**

**Pryd i gofnodi defnyddio grym:**

- Cofnod i gael ei lenwi cyn gynted ag y mae'n ymarferol ac o ddewis o fewn y cylch dyletswydd y defnyddiwyd y grym ynddo. Os ydych yn mynd am gyfnod o absenoldeb yna dylai hwn gael ei gwblhau cyn i chi fynd.
- Mae'n ofynnol i bob aelod o staff gofnodi ei ddefnydd ei hun o rym. Dylai cofnod gael ei gwblhau pan fydd swyddog unigol neu aelod o staff yr heddlu yn defnyddio grym. Os bydd swyddog / aelod o staff yr heddlu yn defnyddio grym ar fwy nag un unigolyn, bydd adroddiad newydd yn cael ei gwblhau am bob unigolyn y defnyddir grym arno.
- Wrth gydnabod y diffyg manylion posibl, dylai un cofnod gael ei gwblhau pan ddefnyddiwyd grym dros gyfnod o amser yn erbyn unigolyn/unigolyn wedyn nad yw/ydynt wedi eu dal mewn digwyddiad trefn gyhoeddus **dynodedig** .
- Pan na fydd y digwyddiad yn digwydd yn ardal eich llu cartref, dylai swyddogion lenwi cofnodion eu llu eu hunain.

Dylid creu cofnod pan ddefnyddir un o'r technegau neu dactegau canlynol:

- Cyffion dwylo (yn cydymffurfio)
- Cyffion dwylo (heb gydymffurfio)
- Sgiliau heb arfau (gan gynnwys pwyntiau pwysedd, taro, atal a thynnu i lawr)
- Defnyddio cŵn
- Tynnu pastwn allan neu ei ddefnyddio
- Tynnu chwistrell allan neu ei ddefnyddio
- Cyffion coesau/breichiau neu gorff cyfan
- Gwarchodydd poer
- Tarian

- Dyfais Ynni Anwythol (C.E.D. - TASER ar hyn o bryd - yn unrhyw un o'r saith categori o ddefnydd)
- AEP: wedi ei anelu neu ei danio
- Arfau tanio: wedi eu hanelu neu eu tanio
- Arall / byrfyfyr

**Dysgwch ragor:**
https://www.npcc.police.uk/documents/Operations/Guidance%20on%20Use%20of%20Force%20Data%20V4Mar18.pdf

Cydnabu'r un swyddog ag a oedd wedi taro'r dyn ifanc ei fod wedi recordio'r digwyddiad ar gamera fideo ar ei gorff. Ond, cyfaddefodd ei fod wedi dileu'r fideo o'r digwyddiad tua phum diwrnod wedyn. Dywedodd ei fod wedi dangos y fideo i'w reolwr llinell cyn ei ddileu, ac yr oedd ei reolwr llinell wedi disgrifio'r defnydd o rym "ddim yn bert ond ddim yn anghyfreithlon". Dywedodd ei fod wedi dileu'r fideo oherwydd nad oedd yn credu y byddai'r digwyddiad yn destun cwyn gan fod cwynion fel arfer yn cael eu derbyn cyn pen 24 awr o ddigwyddiad. Roedd polisi'r llu heddlu yn dweud y dylai swyddogion gadw deunydd am 31 diwrnod pan fyddant yn credu bod digwyddiad yn debygol o fod yn destun cwyn.

Dywedodd rheolwr llinell y swyddog nad oedd wedi cymryd unrhyw gamau i sicrhau bod y fideo o'r camera ar y corff yn cael ei gadw oherwydd ei fod yn credu bod y swyddogion yn gwybod y dylai'r deunydd gael ei lawrlwytho i weinydd y llu cyn gynted â phosibl.

Gofynnodd y fenyw oedd wedi galw'r heddlu i gychwyn i'r dyn ifanc oedd wedi cael ei chwilio gael ei symud o'i thŷ. Cytunodd y swyddogion y byddent yn mynd â'r dyn ifanc adref, gan ei gadw mewn cyffion cefn yng ngherbyd yr heddlu. Yn y diwedd symudwyd y cyffion i'r tu blaen gan fod hyn yn fwy cyfforddus. Ataliodd y myfyriwr gwnstabl y dyn ifanc rhag defnyddio ei ffôn yn y car a'i gadw mewn cyffion nes y cyrhaeddodd ei gartref. Nid yw'n glir dan pa bŵer yr oedd y swyddog yn atal y dyn ifanc rhag defnyddio ei ffôn. Gwadodd y myfyriwr gwnstabl bod cadw'r dyn ifanc fel hyn yn anghyfreithlon.

**Cwestiynau allweddol i lunwyr polisïau/rheolwyr:**

- Beth mae polisi eich llu heddlu chi ar fideo a wisgir ar y corff yn ei ddweud am y deunydd a recordiwyd?
- Sut mae eich llu yn sicrhau bod swyddogion yn gwybod dan ba amgylchiadau y dylid llenwi ffurflenni defnyddio grym?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod swyddogion a staff yn gwybod am yr angen i lenwi ffurflenni defnyddio grym i gofnodi'r grym a ddefnyddiwyd?

**Cwestiynau allweddol i swyddogion heddlu/staff:**

- Petaech chi'n rheolwr llinell ar y swyddog heddlu, pa gamau fyddech chi wedi eu cymryd i gadw'r deunydd a recordiwyd ar y fideo ar y corff?
- Pa gamau fyddech chi wedi eu cymryd i siarad â'r bobl ifanc/tawelu'r sefyllfa cyn defnyddio grym?
- Sut allwch chi sicrhau eich bod yn osgoi rhagdybio pethau wrth ymdrin â throseddwyr tybiedig?

**Deilliannau i'r swyddogion/staff oedd yn rhan o'r digwyddiad:**

- Roedd gan y swyddog a darodd y dyn ifanc ac a wnaeth ddileu'r deunydd o'r camera fideo corff achos i'w ateb am gamymddygiad difrifol. Bu'r swyddog mewn cyfarfod camymddygiad a derbyniodd rybudd ysgrifenedig.
- Nid oedd gan y swyddog a wnaeth chwilio'r dyn achos i'w ateb am gamymddygiad gan ei fod yng nghyfnod cynnar ei hyfforddiant a dan arolygiaeth uniongyrchol y cwnstabl oedd yn diwtor iddo.
- Roedd gan reolwr llinell y swyddog, na wnaeth gymryd unrhyw gamau i gadw'r deunydd wedi ei recordio ar y camera fideo corff, achos i'w ateb am gamymddygiad a derbyniodd gamau rheoli.

**Achos 8 – dyn 16 oed yn mynd yn wael yn y ddalfa**

Am tua 10am, galwyd yr heddlu i gyfeiriad lle gwnaethant arestio dyn ifanc dan amheuaeth o ddefnyddio trais i gael mynediad. Roedd y swyddogion yn meddwl ei fod yn oedolyn oherwydd ei faint corfforol a'i siâp. Dim ond yn llawer hwyrach y gwnaethant ddarganfod mai 16 oedd ef mewn gwirionedd. Dywedodd ei deulu wrth y swyddogion eu bod yn bryderus ei fod wedi cymryd sylwedd anghyfreithlon.

Dywedodd y swyddog bod y dyn ifanc yn anesmwyth ac ymosodol. Dywedodd y swyddogion ei fod yn gweiddi geiriau sarhaus at y swyddogion ac yn eu gwrthsefyll. Rhoddodd y swyddogion gyffion am freichiau a choesau'r dyn a bu'n rhaid ei gario i gerbyd yr heddlu. Ar ôl cyrraedd yr orsaf, roedd yn parhau mewn cyffion, o'i flaen yn y safle 'front-stack'. Fe'i cariwyd yn uniongyrchol i gell gyda help sarsiant y ddalfa.

Yn ei gell, cafodd ei ddal â'i wyneb ar y matres gan o leiaf dri swyddog. Dywedodd sarsiant y ddalfa wrth swyddog am reoli pen y dyn ifanc. Dywedodd y swyddogion eu bod wedi ceisio defnyddio eiliad fer o dawelwch i ddweud wrtho pam ei fod yn cael ei arestio.

Nododd sarsiant y ddalfa bod anadlu'r dyn ifanc yn llafurus a'i fod yn rhochian. Roedd yn amau ei fod wedi cymryd cyffuriau. Roedd yn dehongli bod y cyfnod byr o dawelwch oherwydd bod y dyn ifanc yn blino.

Roedd y swyddogion yn dal dan yr argraff bod y dyn yn hŷn nag yr oedd mewn gwirionedd oherwydd ei faint a'i gryfder. Awdurdodwyd noeth-chwiliad gan ei fod wedi bod yn dreisgar a bod y swyddogion yn amau ei fod wedi cymryd sylwedd anghyfreithlon.

Yn ystod y noeth-chwiliad, roedd swyddogion wrth ei goesau, dwylo, breichiau a'i ben i geisio eu rheoli. Roedd y swyddog wrth ei ben yn monitro ei anadlu ac yn rhoi cyfarwyddyd o ran cyflymder y chwilio. Roedd y dyn ifanc yn gymharol dawel tra roedd y swyddogion yn ei roi mewn siorts atal niwed.

Gwaethygodd y sefyllfa yn gyflym pan geisiodd y swyddogion dynnu top y dyn ifanc. Roeddent yn dweud na wnâi gydymffurfio iddynt dynnu ei gyffion. Rhoddodd swyddog bwysau ar bwyntiau pwysau ar ei wddw ac fe gawsant ddigon o reolaeth i dynnu'r dillad am ei ran uchaf.

> **Arfer Proffesiynol a Ganiateir (APP) ar orwedd ar wyneb a mygu oherwydd ystum**
>
> Pan fydd rhywun yn y ddalfa yn cael ei gadw yn gorwedd ar ei wyneb, dylai swyddog diogelwch fod yn gyfrifol am fonitro cyflwr yr un sy'n cael ei gadw, yn arbennig ei lwybr anadlu a'i ymateb, gan ddiogelu a chynnal y pen a'r gwar. Dylai'r unigolyn hwnnw arwain y tîm trwy'r broses o ymyrraeth gorfforol a monitro llwybr anadlu ac anadlu'r un sy'n cael ei gadw yn barhaus. Dylid bod yn ofalus hefyd na roddir pwysau ar frest yr un sy'n cael ei gadw na rhwystro ei lwybrau anadlu.
>
> **Dysgwch ragor:**
> https://www.app.college.police.uk/app-content/detention-and-custody-2/control-restraint-and-searches/#the-prone-position-and-positional-asphyxia

Dywedodd y swyddogion wrth yr IOPC bod y dyn ifanc yn gwrthsefyll yn fwriadol pan wnaeth y swyddogion geisio rhoi'r cyffion yn ôl arno. Fe wnaethant ddweud ei fod wedi cicio ei goesau sawl gwaith a thorri yn rhydd oddi wrth y swyddog oedd yn ceisio rheoli ei goesau.

Rhoddodd y swyddogion gyffion ar goesau'r dyn ifanc oedd ym mhleth a chyffion ar ei freichiau. Fe wnaethant ddweud ei fod wedi dal ati i ymladd yn eu herbyn.

Dywedodd y swyddogion yn ddiweddarach eu bod yn bryderus y byddent yn cael eu hanafu os na fyddent yn gallu rheoli'r dyn ifanc. Trafododd y swyddogion y risg o'i adael mewn cyffion tu ôl i'w gefn. Dywedodd sarsiant y ddalfa ei bod yn iawn ei adael gyda chyffion am ychydig gan bod y swyddogion yn mynd i aros tu allan i'r gell gyda'r caead i lawr i'w fonitro.

**Arfer Proffesiynol a Ganiateir (APP) ar fonitro yn y ddalfa**

Dylai rhywun sy'n cael ei ddal sydd â dull atal arno, gan gynnwys atal gydag offer mecanyddol, gael ei arsylwi yn barhaus (lefel 3) neu yn agos iawn (lefel 4) fel bod swyddogion a staff yn gallu monitro'r holl arwyddion bywyd ac ymyrryd yn briodol petai argyfwng meddygol yn codi.

Gall yr oruchwyliaeth hon hefyd gynnwys bod:

- yn y gell gyda'r unigolyn sydd wedi ei ddal
- yn y gell gyda'r un a gadwyd a'i atal yn gorfforol
- tu allan i'r gell ac yn arsylwi ar yr un a gadwyd trwy ddrws agored y gell neu ddrws y gellir gweld trwyddo

**Dysgwch ragor:**
https://www.app.college.police.uk/app-content/detention-and-custody-2/control-restraint-and-searches/#monitoring-in-custody

Caeodd y swyddogion ddrws y gell a dechreuodd sarsiant y ddalfa arsylwi ar unwaith trwy'r twll ysbio a'r caead. Dywedodd yn ddiweddarach mai'r rheswm dros wneud hynny oedd bod y dyn ifanc wedi blino'n llwyr ac yn gwisgo cyffion.

Am 10.33am, dangosodd y camera cylch cyfyng bod y dyn ifanc yn dal i beswch, rhochian ac anadlu'n drwm. Er bod ei goesau yn symud ar y dechrau, yn raddol aeth yn dawelach a thawelach nes yr oedd yn ymddangos yn dawel a llonydd. Yna roedd yn ymddangos ei fod wedi stopio.

Aeth sarsiant y ddalfa i'r gell yn gyflym a rhoi'r dyn ifanc yn y safle ymadfer. Ni allai ddod o hyd i guriad calon yn ei arddwrn ond fe ddaeth o hyd iddo yn ei war. Ni allai deimlo bod y dyn ifanc yn anadlu felly gofynnodd am ambiwlans ac offer cymorth cyntaf. Rowliodd y dyn ifanc ar ei gefn. Dechreuodd anadlu eto.

Dywedodd swyddogion yn ddiweddarach ei fod yn ymddangos yn simsan ac roedd yn peswch llawer wrth iddynt geisio ei gadw yn dawel.

Cyrhaeddodd criw'r ambiwlans ond dywedodd y swyddogion bod y dyn ifanc yn dal yn ymosodol. Ni allai'r parafeddygon gadarnhau a oedd wedi bod yn anymwybodol neu beidio, ond fe wnaethant aros gydag o nes eu bod yn fodlon ei fod yn iawn.

Tua'r amser hwn y daeth y swyddogion yn ymwybodol o oedran y dyn ifanc.

Penderfynodd sarsiant y ddalfa adael y dyn ifanc am ddeg munud i weld a fyddai'n tawelu. Rhoddodd y dyn ifanc dan arsylwi lefel pedwar gyda dau swyddog y tu allan i ddrws y gell. Tynnwyd cyffion y dyn ifanc.

Ar ôl 20 munud, clywodd sarsiant y ddalfa helynt yn y gell. Gwelodd ar y camera cylch cyfyng bod y swyddogion mewn trafferth eto. Aeth i'r gell a phwyso ar y larwm argyfwng.

Dywedodd y swyddog bod y dyn ifanc yn anesmwyth ac ymosodol eto. Safodd ar ei draed a dywedodd y swyddogion eu bod yn credu ei fod naill ai yn mynd i ymosod arnynt neu geisio dianc o'r gell. Gwthiodd swyddog ef yn ôl i'r gell.

Rhoddwyd cyffion breichiau arno ar ei gefn â chyffion ar ei goesau. Ceisiodd sarsiant y ddalfa dawelu'r sefyllfa a gofyn i'r dyn ifanc beth oedd yn ei boeni. Dywedodd bod y cyffion yn ei boeni ac felly cytunodd sarsiant y ddalfa i symud y cyffion breichiau i'r tu blaen.

Ond ceisiodd y dyn ifanc dynnu'r cyffion oedd ar ei goesau. Dywedodd sarsiant y ddalfa wrtho, os byddai'n parhau i geisio tynnu'r cyffion, y byddai'n rhaid i'r cyffion breichiau fynd yn ôl i'r cefn. Roedd y dyn ifanc yn dal i geisio tynnu'r cyffion coesau felly symudwyd y rhai breichiau i'r cefn.

Rhoddwyd y dyn ifanc ar oruchwyliaeth ddwbl parhaol gan yr heddlu gyda'r drws ar gau. Roedd yn y gell, gyda chyffion breichiau ar ei gefn a chyffion am ei goesau, yn gorwedd ar ei ochr gyda'r swyddogion yn ei wylio.

Am 1.37pm, dychwelodd sarsiant y ddalfa i'r gell a siarad â'r dyn ifanc. Dysgodd nad oedd wedi cymryd unrhyw gyffuriau ac nad oedd ganddo hanes o hunan-niweidio. Llwyddodd i greu perthynas dda gydag o a rhoi ei ddillad yn ôl iddo. Tawelodd y dyn ifanc i lawr yr adeg honno nes nad oedd angen cyffion arno. Fe'i symudwyd i lefel tri – arsylwi cyson.

Parhaodd yn dawel trwy gydol ymweliad gan weithiwr iechyd proffesiynol ac am weddill yr amser y bu'n y ddalfa.

**Cwestiynau allweddol i lunwyr polisïau/rheolwyr:**

- A yw eich llu heddlu yn rhoi hyfforddiant neu gyfarwyddyd parthed mygu wrth orwedd ar wyneb, a'r amgylchiadau wrth roi rhywun mewn cyffion a all waethygu'r risg?
- Sut mae eich llu heddlu yn ymdrin â thuedd anymwybodol yn ymwneud ag oedran neu ffactorau eraill ar sail ymddangosiad corfforol?

**Cwestiynau allweddol i swyddogion heddlu/staff:**

- Os nad ydych yn sicr am oedran rhywun yn y ddalfa, pa gamau fyddech chi'n eu cymryd i geisio cael gwybod ei oedran?
- Ble fyddech chi'n dynodi pwyntiau lle mae'r risg yn uwch o fygu wrth orwedd ar wyneb?
- A fyddech wedi gwneud rhywbeth arall i leihau'r risg o fygu wrth orwedd ar wyneb?

**Camau a gymerwyd gan y llu heddlu hwn:**

- Mae'r llu heddlu wedi cynnwys yr achos hwn fel astudiaeth achos mewn cyrsiau hyfforddiant diogelwch a gyflwynir gan staff y ddalfa.

**Deilliannau i'r swyddogion/staff oedd yn rhan o'r digwyddiad:**

- Cafwyd bod gan sarsiant y ddalfa achos i'w ateb am gamymddygiad yng nghyswllt:
  - Dweud wrth y swyddogion heddlu oedd yn dal y dyn ifanc yn ei gell i adael y gell, a'i adael yn gorwedd mewn cyffion ar ei gefn (gan wybod ei fod yn dangos arwyddion o flinder mawr).
  - Ei fonitro trwy'r twll sbio ac yna trwy'r caead. Roedd hyn yn anaddas gan ei fod ar arsylwi lefel pedwar – agos iawn, ac yn dal â chyffion ar ei gefn ac yn gorwedd.
- Roedd y llu heddlu yn anghytuno â'r penderfyniad bod achos i'w ateb am gamymddygiad. Fe wnaethant awgrymu ymdrin â'r materion a gododd trwy sesiwn drafod i'r tîm a defnyddio'r achos fel astudiaeth achos mewn hyfforddiant yn y dyfodol. Cytunodd yr IOPC bod hyn yn addas.

SYLW'R PANEL IEUENCTID: "Byddwch yn flaengar – holwch am oedran"

## Plant ac oedolion priodol

Chris Bath, Prif Weithredwr, Rhwydwaith Oedolion Priodol Cenedlaethol

---

**Elusen yw'r Rhwydwaith Oedolion Priodol Cenedlaethol (NAAN). Fe'i sefydlwyd gan ymarferwyr i wella effeithiolrwydd y diogeliad oedolyn priodol (AA) trwy greu canolfan genedlaethol o arbenigedd. Mae'n cael ei hariannu gan ei haelodau, y Swyddfa Gartref, a darparu hyfforddiant a chymwysterau AA.**

### Profiad plant

Diffyg grym, amarch, unigrwydd, rhwystredigaeth, dryswch, gwaradwydd ac ofn. Dyma'r teimladau y mae plant yn eu defnyddio yn aml i ddisgrifio amser a dreuliwyd yn y ddalfa gan yr heddlu, er y gallant eu cuddio rhag yr heddlu trwy ymffrost gwag.

Mae'r ymennydd dynol yn cymryd cyfartaledd o 25 mlynedd i ddatblygu. Ond yn ddeg oed, mae plentyn yn gyfrifol yn droseddol a rhaid iddo/iddi wneud penderfyniadau allweddol, fel cael cyngor cyfreithiol neu beidio.

Mae plant yn y ddalfa dan fwy o anfantais na dim ond datblygiad gwybyddol. Maent yn llawer mwy tebygol na phlant eraill o fod ag iechyd meddyliol gwael, anabledd dysgu (hyd at 32% mewn cymhariaeth â 4%), anhwylder cyfathrebu (hyd at 90% mewn cymhariaeth â 7%, fod yn awtistig (15% mewn cymhariaeth â 1%), neu fod wedi dioddef anaf i'r pen gan golli ymwybyddiaeth am fwy nag 20 munud (18% mewn cymhariaeth â 5%). Gall hil, rhyw, camdriniaeth, esgeulustod, trawma, allgau, a statws 'mewn gofal' hefyd waethygu'r anfantais.

Mae llawer o hyn yn anweladwy oni chwilir amdano yn weithredol. Gall plant sydd yn y ddalfa yn gyson 'ddeall y gêm' er eu bod yn dal mewn gofid a dan anfantais.

### Oedolion priodol

Mae'r *Ddeddf Heddlu a Thystiolaeth Droseddol* (PACE) yn ei gwneud yn ofynnol i'r heddlu gynnwys oedolion priodol wrth gadw, neu gyfweld yn wirfoddol, unrhyw blentyn neu 'berson bregus' (a ddiffinnir yng Nghod C 1.13(d)). Heb un, byddai symud ymlaen gyda llawer o brosesau yn torri PACE, gan greu risg o ymchwiliad annheg a thystiolaeth annerbyniol.

Mae oedolion priodol yn diogelu buddiannau unigolyn, gan sicrhau triniaeth deg, cyfranogiad effeithiol, dealltwriaeth o hawliau, a'r gallu i'w harfer. Maent yn cefnogi, cynghori a chynorthwyo; yn arsylwi ac ymyrryd; ac yn cynorthwyo i gyfathrebu. Mae'n bwysig nodi na allant roi cyngor cyfreithiol ond gallant sicrhau bod cyfreithiwr yn bresennol, hyd yn oed os bydd plentyn wedi gwrthod cyngor cyfreithiol. Mae rôl yr oedolyn priodol yn cynnwys y cyfnod cyfan yn y ddalfa a gall fod yn gymhleth a heriol.

### Rhieni ac oedolion priodol wedi eu hyfforddi

Mae PACE yn rhoi blaenoriaeth i rieni i fod yn oedolion priodol (oni bai eu bod yn rhan o'r achos), a bydd llawer o blant yn gwerthfawrogi cael rhywun cyfarwydd y maent yn ymddiried ynddo sy'n eu deall. Ac eto, mewn amgylchiadau emosiynol, rhaid i rieni ddehongli PACE, deall eu rôl, a herio'r heddlu yn briodol, gan ddibynnu arnynt i gael gwybodaeth. Mae gan oedolion priodol sydd wedi eu hyfforddi'n dda (gwirfoddolwyr neu'r rhai sy'n cael tâl) y wybodaeth a'r profiad i herio heb atal ymchwiliad, ac, yn ddamcaniaethol, gallant gael eu harolygu neu eu rheoleiddio. Ond fel arfer nid yw'r plentyn yn eu hadnabod a rhaid iddynt fod yn fedrus ar lunio perthynas dda. Efallai mai'r ddelfryd fyddai i gynlluniau a rhieni weithio gyda'i gilydd.

### Mynediad at gefnogaeth

Mae'r diogeliad unigolyn priodol yn hanfodol, ond yn rhy aml nid yw'n cael ei ddefnyddio yn effeithiol. Er bod llawer o blant yn cael cefnogaeth gyflym, eang a rhagorol, nid yw rhai yn cael oedolyn priodol tan yn

union cyn cyfweliad. Maent yn treulio oriau heb gefnogaeth, gan gynyddu'r risg i gyfiawnder yn sylweddol.

Mae PACE yn ei gwneud yn ofynnol i'r heddlu ddweud wrth yr oedolyn priodol a sicrhau eu bod yn bresennol cyn gynted ag sy'n ymarferol, ac mae gan blant hawl i ymgynghori yn breifat â'u hoedolyn priodol ar *unrhyw* amser. Ond, mae ymchwil wedi darganfod bod heddlu yn oedi cyn cyfeirio ac yn cyfyngu'r mynediad at blant.

Mae deddfwriaeth a safonau yn ei gwneud yn glir bod raid i ddarpariaeth AA y cyngor fod ar gael ar *unrhyw* amser.

Fodd bynnag, mae argaeledd yn peri rhwystredigaeth yn aml. Nid yw rhai cynlluniau yn gweithredu bob awr o'r dydd, yn ymateb yn gyflym, yn cefnogi'r broses gyfan yn y ddalfa, neu yn cefnogi cyfweliadau gwirfoddol. Rhaid i gynghorau ddylunio a chanfod adnoddau i gynlluniau oedolion priodol sy'n galluogi cydymffurfio â PACE.

**Cadw'r cyfnod yn y ddalfa cyn lleied â phosibl**

Mae lleihau'r cyfnod y mae plant yn y ddalfa yn ganolog i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, strategaethau Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar y ddalfa a phlant, ac Arferion Proffesiynol a Ganiateir y Coleg Plismona. Ond mae'r amseroedd yn y ddalfa ar gyfartaledd wedi cynyddu. Weithiau bydd plant yn cael eu cadw yn y ddalfa yn ddiangen yn y dydd a thros nos – risg iddynt hwy ac i'r heddlu. Mae'r graddau y mae caniatâd ac adolygiadau yn canolbwyntio ar fuddiannau plant yn y ddalfa yn amrywio. Mae cynghorau yn methu yn eu dyletswydd cyfreithiol i roi llety ac weithiau nid yw'r heddlu yn gofyn.

**Cyfweliadau gwirfoddol**

Mae cyfweliadau gwirfoddol yn ymdrin â phryderon am y ddalfa, ond maent yn dod â'u risgiau eu hunain. Yn ychwanegol at y rhan fwyaf o gynlluniau oedolyn priodol, nid yw'r rhan fwyaf o wasanaethau cyswllt a dargyfeirio (sy'n arbenigo ar ddynodi bregrusrwydd yn y ddalfa) wedi eu llunio i'w gwasanaethu. Heb swyddog y ddalfa annibynnol, mae'r swyddogion sy'n ymchwilio yn gyfrifol am weithredu camau diogelu caeth yn eu herbyn eu hunain. Gall plant (ac oedolion priodol sy'n rhieni) weld cyfweliadau o'r fath fel sgyrsiau anffurfiol, nad ydynt yn haeddu cyngor cyfreithiol.

**Adnoddau a diwylliant**

Mae bwlch sylweddol, sy'n ehangu efallai, rhwng y gyfraith ac ymarfer. Mae rhai gofynion PACE yn cael eu gweld yn anymarferol. Mae'n gyffredin iddynt gael eu torri ac yn aml maent yn cael eu hystyried yn fater bychan, yn arbennig pan na fydd achosion yn mynd i'r llys.

Mae adnoddau yn allweddol. Mae'r heddlu a chynghorau yn gwneud gwaith anodd dan amgylchiadau heriol.

Ond, mae diwylliant hefyd. Gan gofio pwyslais cadarn yr heddlu ar ddiogelwch corfforol, a chynlluniau ar gaethwasiaeth fodern, masnachu mewn pobl, llinellau sirol, a defnyddio'r ddalfa yn adeiladol, mae plant yng ngham cyntaf system gyfiawnder wrthwynebol. Maent mewn argyfwng ac mewn risg. Nid ydynt yn 'ddiogel'.

Rhaid i bawb ohonom wneud llawer mwy: NAAN, y llywodraeth, yr heddlu, cyfreithwyr, cynghorau, darparwyr ac oedolion priodol. Rhaid i ni sicrhau bod cyfreithiau a pholisïau plant yn gyntaf yn weithredol yn ymarferol.

**Adnoddau**

Ewch i www.appropriateadult.org.uk/information/police. Mae hyn yn cynnwys ystod o adnoddau defnyddiol, gan gynnwys canllawiau i oedolion priodol heb eu hyfforddi.



**Chris Bath** yw Prif Weithredwr NAAN. Mae Chris wedi gweithio dros elusennau cyfiawnder troseddol ers 15 mlynedd, ac mae'n aelod o fwrdd strategaeth PACE. Dilynwch ef ar Twitter @AA_NAAN

National Appropriate Adult Network

---

**Swydd Nottingham**

Mae Comisiwn Ieuenctid Swydd Nottingham yn galluogi pobl ifanc o bob rhan o'r sir (sy'n 14-25 mlwydd oed) i roi gwybodaeth ar gyfer plismona ac atal troseddau. Ariennir y Comisiwn Ieuenctid gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Paddy Tipping.

Sefydlwyd y Comisiwn Ieuenctid yn 2015 ac mae wedi ymgysylltu â mwy na 5,700 o bobl ifanc o ystod amrywiol o gefndiroedd mewn ysgolion, colegau a darparwyr gwahanol. Mae'r pynciau y mae wedi ymwneud â nhw yn cynnwys: Hyder ac Amrywiaeth gyda'r Heddlu, Troseddau Casineb, Diogelwch yn ystod y Nos, Addysg ac Atal Troseddau, Troseddau Rhywiol, Stopio a Chwilio, Adsefydlu, a Throseddau Cyllyll.

Mae'r Comisiwn Ieuenctid yn cael ei dderbyn yn gadarnhaol gan bartneriaid lleol ac mae wedi bod yn werthfawr wrth siapio ymgysylltu ag ieuenctid gan heddlu lleol a phartneriaethau, polisïau ac arferion ehangach. Mae'r Comisiynwyr Ieuenctid yn ymwneud â Grwpiau Cynghori Annibynnol, gorfodi paneli craffu, a thrwy'r paneli pobl roeddem yn ymwneud â phrosesau dyrchafu a recriwtio – hyd yn oed cyfrannu at recrwitio'r prif gwnstabl presennol, sydd wedi bod yn gefnogwr cryf i'w gwaith.

Mae'r enghreifftiau o'r gwaith hyd yn hyn yn cynnwys:

**Sioe deithiol troseddau cyllyll**

Sefydlodd Comisiwn Ieuenctid Swydd Nottingham sioe deithiol i ddechrau deialog gyda phobl ifanc ar draws Swydd Nottingham am droseddau cyllyll. Buont yn siarad â 1600 o bobl ifanc ar draws 32 o ddigwyddiadau a thrafod yr achosion sylfaenol, yn ogystal ag atebion posibl i'r broblem.

Darllenwch ragor yn:
https://www.nottinghamshire.pcc.police.uk/NYC-Knife-Crime-Roadshow-Report-2019

**Recriwtio Swyddogion Ysgolion ac Ymyrraeth Gynnar (SEIO)**

Mae'r Comisiwn Ieuenctid wedi bod yn ymwneud â recriwtio SEIO ac adolygu gweithdai a grëwyd gan SEIO.

**Panel craffu ar stopio a chwilio**

Ers 2015 mae Comisiwn Ieuenctid Swydd Nottingham wedi bod yn aelod cyson o'r panel craffu stopio a chwilio. Mae'r panel yn rhoi cyfleoedd i aelodau o'r cyhoedd adolygu fideo o gamerâu ar y corff sydd wedi eu ffilmio gan swyddogion. Mae'r panel hefyd yn adolygu data stopio a chwilio a gwybodaeth ac yn derbyn diweddariadau am ddatblygiadau lleol a chenedlaethol. Mae'r panel yn gadael i bobl ofyn cwestiynau am unrhyw ddarn o'r fideo a/neu adroddiadau swyddogion er mwyn craffu.

Am ragor o wybodaeth am Gomisiwn Ieuenctid Swydd Nottingham cysylltwch â:

Kaytea Budd-Brophy - kaytea@leaders-unlocked.org
Gabrielle Jones - Gabrielle@leaders-unlocked.org

---

**Gogledd Swydd Efrog**

Sefydlwyd comisiwn ieuenctid Gogledd Swydd Efrog yn 2015 gyda chyllid gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Julia Mulligan. Mae'n galluogi i bobl ifanc 14- 25 roi gwybodaeth i fod yn sail i benderfyniadau am blismona ac atal troseddau yng Ngogledd Swydd Efrog.

Un dull y mae'r comisiwn ieuenctid wedi ei ddefnyddio i fwydo i Heddlu Gogledd Swydd Efrog yw trwy fodel is-grŵp. Mae hyn yn caniatáu i aelodau'r comisiwn ieuenctid ddod at ei gilydd gydag arbenigwyr Heddlu Gogledd Swydd Efrog ac asiantaethau partner allweddol i gael trafodaethau sy'n canolbwyntio ar bynciau sy'n cael blaenoriaeth gan y comisiwn ieuenctid. Datblygwyd chwe is-grŵp i ymdrin â gwahanol flaenoriaethau: stopio a chwilio; troseddau casineb; perthnasau lle mae cam-drin; iechyd meddwl; cam-drin alcohol a chyffuriau; a bod ar goll o'r cartref.

Mae'r enghreifftiau o'r canlyniadau a gyflawnwyd gan yr is-grwpiau yn cynnwys:

• Cynghorodd yr is-grŵp stopio a chwilio i Heddlu Gogledd Swydd Efrog newid dyluniad y ffurflenni oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer stopio a chwilio - gan addasu'r iaith, ei gwneud yn haws eu defnyddio, ac ychwanegu gwybodaeth i gyfeirio.
• Arweiniodd yr is-grŵp iechyd meddwl at weld aelodau comisiwn ieuenctid Gogledd Swydd Efrog yn cymryd rhan mewn fideo hyfforddi ar gyfer holl bersonél Gogledd Swydd Efrog ar y cyd â'r 'Prosiect Cyswllt' a Phrifysgol Caerefrog.
• Arweiniodd yr is-grŵp troseddau casineb at weld comisiwn ieuenctid Gogledd Swydd Efrog yn dylanwadu ar benderfyniad Heddlu Gogledd Swydd Efrog i ychwanegu gwraig-gasineb fel categori troseddau casineb.

Cynhaliodd y comisiwn ieuenctid hefyd brosiect ymchwil 'Sgwrs Fawr'. Ymgysylltwyd â miloedd o bobl ifanc o bob rhan o Swydd Efrog, gan grynhoi eu canfyddiadau mewn meysydd blaenoriaeth a gwneud nifer o argymhellion i'r heddlu, y Comisiynydd a'r comisiwn ieuenctid. Roedd yr argymhellion hyn yn cynnwys:

- Heddlu Gogledd Swydd Efrog i gynnal stondinau allestyn iechyd meddwl a chynyddu'r hyfforddiant i swyddogion ar iechyd meddwl a phobl ifanc.
- Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu i annog mwy o grwpiau cefnogi cyfoedion a gweithio gyda phobl ifanc i ddatblygu'r grwpiau hyn.
- Heddlu Gogledd Swydd Efrog i gynyddu'r cyfathrebu rhwng yr heddlu a dioddefwyr ar hyd taith y dioddefwr, gan amlygu'r gefnogaeth sydd ar gael.
- Heddlu Gogledd Swydd Efrog i greu arweinydd ar gasineb y gellid ei ddefnyddio i hyfforddi a chefnogi wrth godi ymwybyddiaeth.
- Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu i greu bwrdd pobl ifanc i gefnogi cyflogi swyddogion ar draws y wlad.

Yn ystod y 12-18 mis diwethaf mae'r comisiwn ieuenctid wedi gweithio i ddatblygu'r canfyddiadau sy'n cael blaenoriaeth gyda phartneriaid, gan gynnwys cynhadledd iechyd meddwl aml-asiantaethol a datblygu'r gêm KYMS (Cadw Eich Ffrindiau'n Ddiogel) i ymgysylltu â phobl ifanc ar draws y chwe blaenoriaeth.

Darllenwch ragor yn https://www.northyorkshire-pfcc.gov.uk/for-you/young-people/youth/final-report/

"Mae KYMSGAME wedi cael derbyniad da iawn ac mae gennym gysylltiadau da yn awr. Mae'n ddiddorol gweld sut y mae pobl yn ymdrin â bregrusrwydd a throseddau ar draws Gogledd Swydd Efrog a gweld eu safbwynt ar sut y gallwn ddod at ein gilydd a gweithio gyda'r heddlu, cynghorau lleol ac elusennau i greu rhai atebion" Katie, aelod o'r Comisiwn Ieuenctid

"Mae'r Comisiwn Ieuenctid wedi bod yn rhan hynod o werthfawr o'n gwaith craffu a datblygu polisi.  Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd maent yn cynrychioli llais sydd yn aml yn mynd ar goll mewn plismona, a'r sector cyhoeddus yn fwy eang, sef llais hanfodol bwysig y bobl ifanc. Maent wedi gwirioneddol siapio plismona yng Ngogledd Swydd Efrog, ac rwy'n diolch iddynt am eu gwaith caled, huodledd a brwdfrydedd." Julia Mulligan, Comisiynydd Heddlu a Throseddu

**Achos 9 – Ymateb yr heddlu i bryder am les plentyn dan oed a glywyd ar drên**

Am tua 7.30am aeth menyw at ddau swyddog mewn gorsaf drên i roi adroddiad am ymddygiad amheus yr oedd wedi ei weld ar ei thrên. Dywedodd wrth y swyddogion ei bod wedi gweld dyn yn gwneud galwad fideo i ferch ifanc, gan gael sgwrs anweddus, a dweud ei fod yn teithio ar draws y wlad i'w chyfarfod. Dywedodd wrth y swyddogion hefyd bod y dyn wedi dweud geiriau fel "alli di ddim mynd i'r ysgol nes byddaf i wedi dod oddi ar y trên." Rhoddodd ddisgrifiad o'r dyn, y cerbyd yr oedd yn teithio ynddo, a'r orsaf y credai yr oedd yn newid trenau ynddi.

Dywedodd y ddau swyddog a fu'n siarad â'r fenyw nad oedd wedi rhoi unrhyw wybodaeth bellach am y sgwrs "anweddus". Ond, fe wnaethant dderbyn hefyd nad oeddynt wedi pwyso arni am ragor o wybodaeth gan dderbyn wrth edrych yn ôl eu bod yn difaru na fyddent wedi gwneud hynny.

Dywedodd y swyddog oedd yn arwain y sgwrs gyda'r fenyw ei fod wedi cymryd rhif llinell ffôn y fenyw. Dywedodd, ar yr adeg honno, na wnaeth feddwl y gallai fod angen cysylltu â'r fenyw ar frys. Dywedodd, o edrych yn ôl, y byddai wedi bod yn well cael rhif ffôn symudol.

Gofynnodd sarsiant heddlu i swyddog arall gyfarfod y trên mewn gorsaf ymhellach ar y llinell, cyn yr orsaf y dywedwyd y byddai'r dyn yn newid trên ynddi. Dywedodd y swyddog hwn na allai'r sarsiant heddlu ddisgrifio'r dyn. Siaradodd y swyddog ag un o'r swyddogion oedd wedi derbyn yr adroddiad i gychwyn, a ddywedodd "nad oedd llawer o ddisgrifiad" ond eu bod yn meddwl bod y dyn yn wyn, gyda gwallt du seimllyd, a'i fod yn eistedd ar ochr dde'r goets. Cyfarfu'r swyddog y trên a chwilio'r goets ond ni lwyddodd i ddod o hyd i unrhyw un yn cyfateb â'r disgrifiad a roddwyd. Diweddarodd log y digwyddiad i ddweud y dylai'r swyddogion yn yr orsaf lle'r honnwyd y byddai'r dyn yn newid trên geisio ei gyfarfod os yn bosibl.

Cyfarfu tri swyddog y dyn yn yr orsaf lle'r oedd yn newid trenau. Roedd dau o'r swyddogion yn fyfyrwyr gwnstabliaid a'r llall oedd eu tiwtor gwnstabl. Arweiniodd un o'r myfyrwyr gwnstabliaid, oedd ar seithfed wythnos ei diwtora wyth wythnos, y sgwrs gyda'r dyn. Esboniodd y tiwtor gwnstabl ei bod yn arferol i fyfyrwyr gwnstabliaid arwain mewn amgylchiadau tebyg ac roedd yn hyderus bod gan y myfyriwr gwnstabl penodol hwn ddigon o brofiad i ymdrin â'r digwyddiad.

Dangosodd recordiad fideo camera ar y corff y myfyriwr gwnstabl yn esbonio i'r dyn eu bod wedi derbyn adroddiadau ei fod yn cael sgwrs anweddus â merch ifanc. Honnodd y dyn mai ei ferch 14 mlwydd oed oedd hon. Honnodd ei fod yn ddigartref a'i fod yn symud i'r ddinas lle'r oedd y ferch yr oedd yn honni ei bod yn ferch iddo yn byw.  Rhoddodd ei gyfeiriad diweddaraf i'r swyddogion. Gofynnodd y swyddogion i'r dyn am ddull adnabod ond dywedodd nad oedd ganddo unrhyw beth. Roedd y fideo hefyd yn dangos y dyn yn rhoi gwybodaeth oedd yn gwrth-ddweud ei hun a chyrchfan wahanol na wnaeth y swyddogion sylwi arnynt. Dim ond bag siopa oedd gan y dyn er ei fod yn honni ei fod yn symud i fyw i'w gyrchfan. Ni wnaeth unrhyw un o'r swyddogion godi amheuaeth am hyn.

Rhoddodd y dyn enw a dyddiad geni ffug i'r swyddogion. Adroddodd y myfyriwr gwnstabl oedd yn arwain y sgwrs yr enw a'r dyddiad geni i'r ystafell reoli a gynhaliodd wiriadau cudd-wybodaeth ond heb unrhyw ganlyniadau.

Gadawodd y swyddogion i'r dyn barhau ar ei daith. Dywedodd y myfyriwr gwnstabl eu bod wedi gwneud hyn oherwydd nad oedd ganddynt unrhyw bŵer i gadw'r dyn. Cytunodd y swyddogion eraill oedd yn ymwneud â'r achos â'i asesiad.

Adolygodd swyddog cydymffurfio data'r llu heddlu y cofnod log a gofyn i rywun gysylltu â'r tyst gwreiddiol i gael rhagor o fanylion am y sylwadau "anweddus". Dywedodd nad oedd yn credu bod log y digwyddiad yn cynnwys digon o wybodaeth.

Ceisiodd y swyddog a siaradodd â'r tyst i gychwyn gysylltu â hi ar ei lein ffôn yr oedd hi wedi ei roi ond nid oedd ateb a dim cyfle i adael neges.

Yn fuan wedyn, gofynnodd y tiwtor gwnstabl oedd yn rhan o'r sgwrs gyda'r dyn yn yr orsaf drên i swyddogion gyfarfod y trên yn y ddinas yr oedd y dyn wedi dweud yr oedd yn mynd iddi. Roedd cofnodion blaenorol ar y log yn dweud bod y dyn yn gadael y trên mewn dinas wahanol i'r un a ddwedwyd gan y swyddog hwn.

Ni wnaeth y sarsiant heddlu na'r arolygydd oedd yn rheoli'r digwyddiad weithredu ar y diweddariad i'r log oedd yn dweud bod y dyn yn dod oddi ar y trên mewn gorsaf wahanol i'r un y soniwyd amdani yn y diweddariadau blaenorol. Ni lwyddodd y swyddogion i atal y dyn yn yr orsaf drên pan ddaeth oddi ar y trên.

Am tua 6pm, diweddarwyd y log i ddweud bod y tyst gwreiddiol wedi rhoi rhagor o fanylion am y sgwrs "anweddus". Roedd yn dweud bod y dyn wedi dweud "Rwy'n gallu gweld dy ddillad isaf" a "Rwyf wedi teithio'r wlad gyfan i ddod i dy gyfarfod, cofia." Dywedodd hefyd ei bod yn credu bod y ferch yn blentyn oherwydd roedd y dyn wedi gofyn iddi aros cyn mynd i'r ysgol.

Cynhaliwyd gwiriadau cudd-wybodaeth pellach, yn ogystal ag ymholiadau o dŷ i dŷ. Ni wnaeth y rhain ddod o hyd i'r dyn.

Am tua 12.30pm y diwrnod canlynol rhoddodd merch adroddiad i'r heddlu ei bod wedi cael ei cham-drin gan aelodau o'i theulu. Cyfwelwyd y ferch gan yr heddlu a ddatgelodd ei bod wedi cael cyfathrach rywiol â'r dyn oddi ar y trên.

Arestiwyd y dyn a phlediodd yn euog i droseddau rhywiol ar blant. Fe'i dedfrydwyd i bedair blynedd a hanner yn y carchar a thair blynedd arall ar drwydded.

**Cwestiynau allweddol i lunwyr polisïau a rheolwyr:**

- Sut mae eich llu heddlu yn sicrhau bod swyddogion a staff yn holi ac amau adroddiadau rhai dan amheuaeth o fod yn droseddwyr?

**Cwestiynau allweddol i swyddogion heddlu/staff:**

- Pa gwestiynau eraill fyddech chi wedi eu gofyn i'r fenyw a ddywedodd ei bod wedi clywed y sgwrs rhwng y dyn a'r ferch ifanc?
- Sut fyddech chi wedi cael mwy o eglurder pwy oedd y dyn a diben ei daith wrth siarad ag o yn yr orsaf drên?

**Deilliannau i'r swyddogion/staff oedd yn rhan o'r digwyddiad:**

- Nid oedd gan y swyddog a dderbyniodd yr adroddiadau cyntaf gan y fenyw yn yr orsaf drên heb gael rhagor o fanylion achos i'w ateb am gamymddygiad. Argymhellwyd y dylai camau rheoli ddigwydd am berfformiad anfoddhaol. Ymddiswyddodd y swyddog cyn i hyn ddigwydd.
- Nid oedd gan y cwnstabl diwtor oedd yno pan siaradwyd â'r dyn yn yr orsaf drên achos i'w ateb am gamymddygiad am beidio â herio adroddiad y dyn o ran pwy oedd ef a'i reswm am deithio. Ond, bu mewn cyfarfod am berfformiad anfoddhaol a derbyniodd gamau rheoli.

## Am gyfrannu at ddatblygu Dysgu'r Gwersi?

Rydym yn creu panel newydd rithwir, gan ddwyn at ei gilydd amrywiaeth o randdeiliaid o'r heddlu, y gymuned a'r sector wirfoddol, a'r byd academaidd, i gefnogi datblygu rhifynnau o Dysgu'r Gwersi yn y dyfodol.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r panel, llenwch ein ffurflen gofrestru ar-lein i gofrestru eich diddordeb.

Am ragor o wybodaeth anfonwch e-bost at learning@policeconduct.gov.uk

---

Cyhoeddir y cylchgrawn Dysgu'r Gwersi gan yr IOPC.

Fe'i datblygir ar y cyd gyda phartneriaid ym maes plismona.

E-bost: learning@policeconduct.gov.uk

Y We: www.policeconduct.gov.uk

Twitter: @iopc_enquiries

Rhagfyr 2019

© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)